# Y BIGWN

CYF. 30 RHIF 8 RHAGFYR 2018 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

## EIN CYFARCHION ANFONWN - YN GYNNES A'R GENI A GOFIWN.




Owain Tudur, Dylan Jones, ac Osian Roberts yn ail fyw'r dyddiau da,-'nol i Baris go iawn. (Tud 25)




Coroni Brenhines y Sir, Ffion Davies, Fferm y llys, yn ystod Eisteddfod CFFI Clwyd yn Neuadd y Dref. Llongyfarchiadau iti.



Noson Guto Ffowc gyda Lyn, Rhys, Gaynor a Bob Neale



Cofio - Mari Wyn Jones, wyres Gwyrfai a Heather Jones yn darllen ei cherdd 'Yr Enaid Byw' yng Nghadeirlan Llandaf. (tud 13)



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr Y Bigwn

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Rhagfyr 21 - Ar Werth Ionawr 5, 2019**



Cyngerdd Côr y Porthmyn yng Nghapel y Fron - Tud 6



Organydd ac Arweinydd y Côr - Bov



Eirlys unawdydd gyda'r Côr



Gwynfor -arweinydd y noson

# Bore Goffi Capel Pendref



Lowri a Tomos



Clwb Gosod Blodau Dinbych - tudalen 8



Y Parch Eifion Jones



Llinos a Cadi Gerallt



Gweithwyr y Bore Goffi ac isod Cinio Nadolig yn Felin Brwcws



Mr Geraint Roberts a'r Parch Cledwyn Parry



## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9
@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Gair gan y Golygydd

Agor Drysa'

'Does ond rhaid ichi ofyn "O ble 'dach chi'n dwad 'lly?" ac mi agorith y drysa'. Roeddan ni yn y Bae yng Nghaerdydd wythnos y 'steddfod yn 'i gwneud hi am Y Senedd i gael bod yno i groesawu a llongyfarch Geraint Thomas am 'i orchest anhygoel yn Ffrainc a'i falchder amlwg wrth chwifio'r Ddraig. Mi gyrhaeddson ni mewn da bryd a chael lle i ista ar y grisia' y tu allan.

Mewn dim, mi ddaeth 'na ddyn a sodro'i hun yn dynn wrth f'ochor i, ac, yn groes i'r drefn, fo agorodd 'i geg gynta'. Mi fuon ni'n pwyso a mesur, canmol a gweld beia' ar bron i bob dim dan d'wniad haul am wn i. Ne', fel y bydd Gwyrfai yn 'i ddeud ar nos Iau pan fyddwn ni'n trio chwara' bowls yng Nhapel y Fron, "malu cawyr". Ond roedd Alun yn sgwrsiwr difyr iawn. A dyma ofyn Y cwestiwn, "Un o ble 'dach chi 'lly?" "Caerdydd," medda fo, "ond yn wreiddiol o Nefyn." Mi welis i'r drws yn rhyw led agor! Ac mi ddeudis fod fy chwaer y'nghyfrath yn un o Forfa Nefyn. Mi loywodd 'i ll'gada', "Pwy 'lly?" medda' fo, ac mi egluris inna. "Dow, Lis Glan Dŵr," medda fo wedyn, "nabod y teulu'n iawn."

Nid yn unig hynny, ond aeth ymlaen i sôn am y cyfnod pan oedd o newydd adael yr ysgol ac ar dân i 'neud ceiniog ne' ddwy cyn 'i throi hi am y coleg. Adeiladwr oedd 'i dad ac am fanteisio mae'n debyg ar nerth bôn braich y llanc i 'neud y gwaith mul. Un joban ar y llyfra' oedd codi tŷ ar safle hen dŷ golchi oedd drws nesa, ond yn rhan o'n cartra ni yn y Penrhyn. Roedd o'n adeilad bach dipyn-o-bob-peth a deud y gwir. Yno roeddan ni'n berwi bwyd moch mewn slaffan o grochan; yno hefyd roeddan ni'n hongian y moch i waedu i dybia ar ôl eu lladd; yno roeddan ni'n cadw tatws mewn binia' dros y gaea' ac roedd un congol wedi ei neilltuo ar gyfar coed tân a glo.

Yno 'roedd 'y mrawd a Lis Glan Dŵr am fwrw gwreiddia' a magu teulu. Ac Alun o Nefyn oedd yn un o rheini fu wrthi hi'n ddiwyd yn mesur a gosod y sylfeini i'r cartra' newydd. Ac ydi, mae'r tŷ yn dal ar 'i draed.

Berwyn

## DIGWYDDIADUR

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel Y Fron A'r Brwcws
**Nos Lun,**

**Rhagfyr 10fed.**
"Ymweliad â Chanada"
yng nghwmni

John a Meirwen Hughes, Abergele.

### NEGES Y Nadolig

Heb os, ein neges ni i'r byd – heddiw
yw meddwl am ennyd;
Er y rhoi mae rhai o hyd
yn waglaw ac yn llwglyd.

# Y BIGWN

Yn eisiau:

# GOLYGYDD Y MIS

'Rydym yn chwilio am rai i ymuno â thîm golygyddol eich papur bro. **Golyga hyn fod yn gyfrifol am Y Bigwn unwaith y flwyddyn yn unig.** Byddwch yn gyfrifol am ysgrifennu'r Golygyddol,rhoi trefn ar y deunydd, darllen a chywiro proflenni.

**Am fwy o fanylion cysylltwch â:-**
**Stan Lyall (01745 813659)**
**Bedwyr Griffiths (01745 814497)**

# CYFARCHION



Pen-blwydd Hapus iawn i Guto ac Elen Mair a oedd yn 5 oed ar Dachwedd 29ain. Llawer o gariad oddi wrth Awen, Dad a Mam; Nain a Taid Trefnant a Nain a Taid Pwllglas a'r teulu i gyd! xx

Dymunaf Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i fy nheulu a chyfeillion, gan ddiolch o galon am bob ymweliad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag ataf yn ystod 2018. Gwerthfawrogaf y cyfan yn fawr iawn.

Cofion atoch ôll, Rhiannon Rogers

**RHYBUDD GDPR**

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/ lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn

# PRIODAS



## Jones yn priodi Jones!

Ar Hydref 27ain, priodwyd Nia Haf, merch Ivor a Margaret Jones, Bae Colwyn, a Dylan Luke, mab Gwilym ac Alwenna Jones, Dinbych. Cynhaliwyd y briodas yn y Llofft Wair, Canolfan Fwyd Cymru, Bodnant. Y morwynion oedd Naomi Maynard ac Angharad Era, ffrindiau Nia, a'r forwyn flodau oedd Beca Gwilym, merch Nia a Dylan. Y gwas oedd Alun Jones, ffrind Dylan, a'r gweision bach oedd y meibion, Tomos, Osian, Aled a Siôn. Rhys ac Aled, brodyr Nia, oedd yr ystlyswyr. Y delynores oedd Meinir Llwyd, ffrind i'r pâr priod. Cafwyd eitemau cerddorol gan Alaw Eleri, nith, a Rhian Edwards-Jones, chwaer yng nghyfraith. Cafwyd darlleniad gan Gareth Luke, brawd Dylan, ac fe gynorthwywyd yn nhrefniadau'r diwrnod gan ei frawd, Rhodri Luke. Y tystion oedd Bethan Jones ac Eleri Hughes-Jones, chwiorydd yng nghyfraith.

Dymuniadau gorau i'r pâr priod, gan y Jonsiaid, teulu a ffrindiau oll.

Diolch yn fawr i bawb ddaru gyfrannu i'r rhifyn hwn o'r Bigwn a'ch ymroddiad a'ch parodrwydd i gael y maen i'r wal.

Berwyn

# Y Capeli

## CAPEL BRWCWS

Rhian Williams agorodd yr Ysgol Sul, Hydref 21ain.

Penderfynwyd i anfon y casgliad at Noson Pwdin a Phaned Cymorth Cristnogol.Oedfa Gymun dan ofal ein gweinidog y Parch. Andras Iago a gawsom yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.

Bore Sul, Hydref 28ain, Lis Edwards fu yn gyfrifol am y rhannau arweiniol yn yr Ysgol Sul. Bu y plant yn brysur yn gwneud 'collage' o Ardd Eden tu allan i'r capel.Richard Jones, Bethel oedd yn pregethu y prynhawn. Bryan Roberts oedd yr organydd.

Dydd Sul, Tachwedd 4ydd cynhaliwyd Oedfa'r Fro yng Nghapel Trefnant.

Ar Sul y Cofio, agorwyd yr Ysgol Sul gan Catrin Roberts. Bu y plant yn brysur yn paratoi bocsys Nadolig T4U. Braf oedd cael croesawu Dr.Tim Jones atom.Croesawyd y Parch.W.H.Pritchard i Oedfa'r prynhawn. Eleanor Roberts oedd wrth yr offeryn.




Plant yr Ysgol Sul Capel Brwcws gyda'r 'collage' o Ardd Eden



Plant Ysgol Sul Y Brwcws yn paratoi bocsys esgidiau at Teams 4 U

## Y CAPEL MAWR A SEION

Gyda thristwch y derbyniwyd y newydd am farwolaeth y Parch. George Emlyn Jones yn ystod mis Tachwedd.

Roedd yn ŵr addfwyn a rhadlon iawn, a brwydrodd yn ddewr yn erbyn llesgedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Magwyd ef yn Y Capel Mawr ac yr oedd yn un o dri o feibion yr eglwys a aeth i'r Weinidogaeth.

Ar ôl ymddeol dychwelodd ef â'i briod Lilian i'w dref enedigol gan ymgartrefu yn Nhrewen.

Cydymdeimlwn â hi a'u mab Arwel yn eu galar.

Cawsom gwmni ein gweinidog, y Parch. Ddr. Andras Iago, ar gyfer yr oedfa hwyrol ar Hydref y 21ain.

Croesawyd ef gan Mr Ifor John Jones a Mrs Dorothy Rogers oedd y cyfeilydd.

Y bore Sul canlynol y cennad oedd Mr Richard Lloyd Jones, Bethel, Caernarfon. Yr organyddes oedd Mrs Dorothy Rogers.

Cynhaliwyd yr oedfa foreol am hanner awr wedi naw ar Sul y Cofio fel y gallai'r aelodau, pe dymunent ymuno â'r gwasanaeth dinesig ger y gofgolofn am chwarter i unarddeg.

Ein cyn-weinidog, y Parch. W.H.Pritchard, oedd gyda ni'r bore hwnnw a chroesawyd ef gan Mrs Cheryl Williams, llywydd y mis. Mrs Catrin Warren oedd yr organyddes.

J. H. & B. JONES
CIGYDD TEULU
Gwerthu PYSGOD hefyd
* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell
92 Stryd y Dyffryn,
Dinbych
01745 812132



Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



## CAPEL Y FRON

Yn ystod oedfa’r Cymun bore Sul, Hydref 21ain, fe wnaeth ein Gweinidog, y Parch Andras Iago, ddarllen tocyn aelodaeth ac estyn croeso i Mr Ednyfed Williams sydd wedi dod yn aelod atom o Eglwys Bethel, Dyserth ac wedi ymgartrefu yn Dalar Wen. Yr organyddes oedd Mrs Iona Edwards. Nos Sul, Hydref 28ain, yr oedd oedfa’r hwyr dan ofal Mr Richard Jones, Bethel, gyda Mrs Eiri Jones yn cyfeilio, ac ar nos Sul, Tachwedd 11eg, braf oedd estyn croeso i’r Parch W.H. Pritchard atom, a’r organyddes oedd Mrs Eiri Jones.

## CYNGERDD CÔR Y PORTHMYN

Cawsom noson llawn mwynhad yng nghwmni Côr y Porthmyn o Rhewl yng Nghyngerdd Blynyddol Capel y Fron eleni. Roedd y capel yn llawn.
Sefydlwyd y côr yn 2011 ac mae oddeutu 35 o aelodau yn y côr bellach. Mae eu harweinydd Erfyl Owen neu Bov fel y’i gelwir yn hanu o deulu cerddorol Hafod y Gân ac yn frawd i Arwel Owen oedd yn aelod yma yng Nghapel y Fron. Mae rhai ohonom yn cofio teulu Hafod y Gân yn cynnal nosweithiau llawen ar hyd a lled Gogledd Cymru.
Canodd y côr sawl cân a gyfansoddwyd gan Bov gyda’r geiriau gan ei ddiweddar fam, Ceri, ac ymysg yr unawdwyr oedd Eirlys, chwaer Bov, a John Jones a arferai fyw yma yn Ninbych.
Cyfansoddodd Bov y gerddoriaeth a’r geiriau i’r gân ‘Cofio Hedd Wyn’ a enillodd Cân i Gymru2018 i’r grŵp, Ceidwad y Gân. Harri mab Bov ydi prif leisydd y grŵp. Canodd y côr addasiad o’r gân fuddugol inni ac roedd y gynulleidfa wrth ei bodd!
Bov oedd yn cyfeilio i’r côr ac yn eu harwain wrth chwarae’r allweddellau ‘run pryd – dipyn o gamp!! Gwynfor Jones, aelod o’r côr, oedd yn cyflwyno’r eitemau a gwnaeth hynny mewn ffordd gartrefol a phwyllog.
Llywyddwyd y cyngerdd gan Richard Snelson ac fe dalwyd y diolchiadau gan Gaynor Prew. Diolch hefyd i Arthur a staff y Masons am baratoi lluniaeth i’r côr.
Yn wir, cawsom noson i’r brenin a phawb wedi mwynhau gwrando ar Gôr y Porthmyn ac yn canmol.

# Y Cymdeithasau

## CYMDEITHAS HANES LLEOL DINBYCH

Yng nghyfarfod agoriadol y Gymdeithas ym mis Medi, roedd nifer o'r aelodau a ffrindiau eraill yn adrodd hanes eu hatgofion o'u hamser fel disgyblion yn Ysgol y Sir, Dinbych. Cafwyd hanes difyr iawn a daeth Peter Thomas â'i hen gap ysgol efo fo, cap na wisgodd fel disgybl am dros 75 o flynyddoedd! Ar ddiwedd y noson, bu amryw un yn y gynulleidfa yn hel atgofion am eu dyddiau ysgol ac am rai o'r hen athrawon ac, yn bendant, yn mwynhau troi'r cloc yn ôl. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Richard Snelson, a thalwyd y diolchiadau gan Bob Neale. Diolchodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd, Ceri Ellis, am drefnu rhaglen y flwyddyn.

Ym mis Hydref, y siaradwr gwadd oedd Cadeirydd Cymdeithas Hanes Dyffryn Rhydymwyn, Colin Barber o Licswm, a'i destun oedd *Rhydymwyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd.* Soniodd am y system o dwneli ac adeiladau eraill lle roedd ffatri arfau cemegol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Hon oedd yr unig ffatri niwcliar a chemegol na ddarganfuwyd gan yr Almaewyr yn ystod y Rhyfel. Roedd y safle yn y dyffryn y tu ôl i le mae tafarn yr Antelope heddiw. Erbyn Tachwedd 1942, roedd y ffatri yn cynhyrchu 40,000 shel o nwy mwstard yr wythnos. Mae llawer o olion yr hen ffatri yn dal yn Rhydymwyn ar yr wyneb ac yn y twneli a threfnir teithiau tywys o'r safle yn achlysurol yn ystod y flwyddyn. Roedd hon yn ddarlith ddiddorol am safle cudd a phwysig o ddyddiau'r Ail Ryfel Byd a hynny heb fod yn bell o gwbl oddi wrthym yn Ninbych. Croesawyd y siaradwr a thalwyd y diolchiadau gan Gadeirydd Cymdeithas Hanes Lleol Dinbych, Richard Snelson.

Bydd cyfarfod mis Tachwedd yn y Clwb Golff pan fydd yr aelodau yn mwynhau cinio a sgwrs gan yr is-Gadeirydd, Avril Robarts, gyda Stan Lyall yn talu'r diolchiadau.

## Y GYMDEITHAS GYMRAEG

Bu newidiadau mawr o ran cyfarfod mis Tachwedd. Yr oedd Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu, wedi addo dod atom ond bu'n rhaid iddo dynnu yn ôl ychydig cyn y cyfarfod oherwydd mater arall pwysig oedd wedi codi ac yn hawlio blaenoriaeth. Yn ffodus, yr oedd Eifion Lloyd Jones, un o aelodau'r Gymdeithas yn fodlon sefyll yn y bwlch a chawsom noson ddifyr yn ei gwmni yn hel atgofion am eisteddfodau o'r 1950au i'r 1990au. "Eisteddfodau Personol - y Difri' a'r Digri'" oedd y pennawd. Dilwyn Jones, ysgrifennydd y Gymdeithas, oedd yn cyflwyno a diolch, hefo Carys ac Erfyl Williams yn gyfrifol am y baned.



TE YN Y GRUG
**Tŷ Te a Delicatessen**
**Coronation Buildings,**
**Lôn Gefn,**
**Dinbych, LI16 3TE**
**deli@teynygrug.co.uk**
**01745 816576**

## CYMDEITHAS CALEDFRYN

Gwestai mis Hydref oedd Proffesor Llusern – Consuriwr Fictorianaidd sef Chris Baglin sy'n byw ym Mostyn, Sir y Fflint.Mae Chris yn Swyddog Datblygu gyda Menter Iaith Fflint a Wrecsam ac yn grïwr tref i Gyngor Tref Treffynnon – ef yw'r unig grïwr tref yng Nghymru sy'n defnyddio'r Gymraeg! Ond Chris y Consuriwr Fictorianaidd a ddaeth atom i Felin Brwcws i'n swyno!

Roedd Chris yn giamstar am wneud triciau ac yn berson llawn hiwmor.Dyfalodd yn gywir pa gerdyn o'r pac ddewisodd Llifon a dyfalodd yn gywir eto pa rif rhwng 1 a 100 ddewisodd Aled Rhys! Dyma gonsuriwr oedd yn gallu "darllen y cof!"

Aeth Chris â ni i fyd ysbrydegaeth ac i hanes ysbrydion Melin Brwcws!

Rhyfedd oedd gweld y pendil hir yn hongian yn llonydd uwchben darn o gerdyn gydag enw person byw arno ond yn ysgwyd o'n blaenau uwchben darn o gerdyn gydag enw person marw arno!! Codi braw?

Braf oedd gweld Chris yn cynnwys ein haelodau wrth iddo wneud ei driciau ac ymateb llawer ohonom oedd, "Sut naeth o hynna?"

Croesawodd ein Llywydd, Richard Snelson, aelod newydd sef Bob Clwyd ac fe longyfarchwyd Elfed y Ffowndri ar ddod yn daid am y tro cyntaf.

Llywydd y noson oedd Llifon Jones ac ef a dalodd y diolchiadau i'r Proffesor Llusern,Y Consuriwr Fictorianaidd.

Mwynhawyd noson hwyliog a gwahanol a dyma, yn wir, noson i'w chofio.



Y Proffesor Llusern a Llifon



Abracadabra

## MERCHED Y WAWR, DINBYCH a'r CYLCH

Nos Fercher, Tachwedd 7fed oedd dyddiad ein cyfarfod diweddaraf. Croesawodd Nerys (ein Llywydd) Nia yn ôl i gadair yr ysgrifennydd ar ôl ei hanffawd a diolchodd i Cheryl am sefyll fewn mis dwytha. Llongyfarchwyd Menna Ellis ar ddod yn nain, a dymunwyd ein cyfarchion a dymuniadau gorau i Mai Howells ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Gobowen.

Yn dilyn y Pwyllgor Rhanbarth, nodwyd fod y mudiad yn Genedlaethol eisiau ymgyrchu i leihau y defnydd o blastic, ac i ni geisio gwneud hyn o fewn ein cymuned. Nodwyd fod y Llith a Charol blynyddol yn cael ei gynnal ar bnawn Sul, Rhagfyr 9fed am 3.30yp yng Nghapel Seion yng Nghorwen.

Croesawyd Iona a Caryl Jones atom gan Olwen Rowlands. Mae'r ddwy yn fwy adnabyddus i ni yn y dref fel "genod y Granar" sef siop fara yn y dre. Mae'r ddwy wedi bod mewn nifer o wahanol swyddi cyn iddynt benderfynu mentro i fyd busnes a rhedeg 'Y Granar' gyda'i gilydd. Dangosodd Caryl i ni sut i addurno cacennau Nadolig, a Iona, sut i wneud '*rouladeTia Maria*' a hefyd cylch '*choux*' sawrus. Cafwyd cyfle i flasu tamaid bach o'r *roulade* ac roedd pawb wedi eu plesio. Diolchodd Olwen i'r ddwy am noson gartrefol a byddwn i gyd am y gorau yn addurno ein cacennau 'dolig eleni!!



Cacennau Caryl

## CINIO DIWRNOD NADOLIG

**Fasech chi yn hoffi cael cwmni a chinio diwrnod Dolig?**

**Ymunwch â ni yn Ysgoldy St Thomas,Stryd y Dyffryn, Dinbych**

**Cinio gwerth chweil am ddim, yn cynnwys adloniant.**

**Cludiant ar gael os oes angen**
**RHAID BWCIO O FLAEN LLAW**
**Ffoniwch Dinbych 813426 (Lilian)**
**neuDinbych 813256 (Iona)**

**CEWCH GROESO GWERTH CHWEIL**



Caryl a Iona - Merched y Granar

Ar nos Wener, Tachwedd 9fed, aeth 4 aelod o'r gangen - Angharad, Cheryl, Janet ac Annwen i gystadlu yn y Cwis Hwyl cenedlaethol yn y Clwb Golff yn Ninbych. Roedd 12 tîm yno ar y noson, a bu i dîm Dinbych ddod yn ail. Roedd ystod eang o gwestiynau ar Gymru, merched yng Nghymru, chwaraeon a chwestiynau cyffredinol. Cafwyd noson llawn hwyl a bwyd gwerth chweil.

Mis nesa, byddwn yn dathlu'r Nadolig hefo swper yn y Bod Erw yn Llanelwy.

## CLWB GOSOD BLODAU DINBYCH

Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol yn Neuadd y Dref, ddechrau Tachwedd. Thema’r noson gan Janet Fox o Rugby oedd Gwlad Hud a Lledrith y Gaeaf (Winter Wonderland).

Blwch ‘Dolig mawr gyda rhuban wedi ei glymu amdano oedd y gosodiad cyntaf gyda chelyn brith, lilïau gwynion a chwistrell sgleiniog arnynt a sbarclyrs coch, yna ychwanegwyd dau osodiad arall i’r gwreiddiol. Hyfryd iawn.

Yr ail osodiad oedd dau gynhwysydd gwydr hir gyda golygfa aeafol y tu mewn iddynt a dau osodiad arnynt o ddail wedi eu chwistrellu i edrych fel eira, Carnasiwns gwynion, Ffarwel Haf gwynion a rhosod gyda goleuadau bach glas yn troelli drwyddynt.

I wneud y trydydd, defnyddiwyd cynhwysydd mawr siâp côn gyda gosodiad ar ei ben o flodau gwynion, deiliach wedi’u chwistrellu a swp o gonau.

Y pedwerydd un oedd cynhwysydd mawr gyda dwy ffon wen, tri Armaryllys gwynion, gwair pampas, sbrigyn o ddail a phelen fawr o Flodau’r Haf a phibonwydd gwydr. Yna, ychwanegwyd dau osodiad arall i greu triawd. Hyfryd.

Mynyddoedd cribog oedd cefndir y gosodiad yma, gyda dail llwyd, lilïau gwynion, Tegeirian gwyn, rhosod Arananche mewn cynhwysydd gyda goleuadau bach pinc yn treiddio drwyddynt ynghyd â dau osodiad arall.

Y chweched oedd plocyn mawr o bren gyda digon o le i ddau osodiad o wahanol sbrigau, helygen, celyn brith, deiliach gwyrddion, blodau gwynion a chonau mawr – rhai yn wyn a’r lleill o liw naturiol.

Tra’r oedd Janet Fox yn arddangos ei dychymyg a’i dawn i greu, roedd hi hefyd yn sôn am ei chefndir a'r dylanwadau fu arni. Yn sicr, roedd yr ardal lle’r oedd yn byw yn gyfoethog ar sawl lefel ac yn rhan o’r awydd i greu.

Margherita Jones

(LLUN A'R DUDALEN 2)

## AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar



Braf iawn oedd cael gwahodd yr Athro Dyfrig Hughes i’r Amgueddfa unwaith eto. ‘Meddyginiaethau Newydd a’r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol’ oedd ei destun y tro yma a dechreuodd drwy sôn am y gwelliannau mewn meddyginiaethau sydd wedi digwydd ers yr Ail Ryfel Byd. Mae pobl sy’n dioddef o gancr, clefyd y galon, anhwylderau’r ysgyfaint a HIV yn llwyddo i fyw yn hirach. Dangosodd pa mor dda mae’r brechlyn yn erbyn y ffliw wedi bod, gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y dioddefwyr ers y 90au cynnar.Gwariodd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol £20 biliwn ar feddyginiaethau y llynedd, sy’n rhan sylweddol o wariant y flwyddyn. Wrth ystyried meddyginiaethau newydd felly, rhaid i’r awdurdodau ddewis pa rai i’w marchnata a phenderfynu ar y gost – mae rhai yn rhy ddrud i’w prynu.Yng Nghymru mae’r pwyslais ar hyn o bryd ar atal clefydau, a dyna’r rheswm am ddarparu presgripsiwn am ddim i bawb.

Cawsom noson gerddorol yn ddiweddar yn Theatr Twm o’r Nant, pan ddaeth Triawd Jazz Huw Warren i ddifyrru’r gynulleidfa. Noson oedd hon fel rhan o gynllun Cyngor Celfyddydau Cymru, ‘Llwyfannu Adloniant yn eich cymuned’, a diolch iddyn nhw am eu cefnogaeth ynghyd â Chyngor Sir Ddinbych, y Carriageworks a Menter Iaith Dinbych. Noson o ryfeddu at ddawn a sgiliau rhai o’n cerddorion cenedlaethol ni!

Rydym wedi cysylltu ag Amgueddfa Pŵer, ‘Tân Mewnol’ yn Nhanygroes, Ceredigion. Dyma’r unig Amgueddfa achrededig sy’n bodoli ar gyfer cofnodi hanes y peiriant tanio mewnol, ac mae’r gwirfoddolwyr yno wedi llwyddo i gael nifer o’r peiriannau i weithio. Yn y casgliad mae nifer o radios morwrol a ddefnyddiwyd i gysylltu llongau â’r lan, i fordwyo ac i ddarganfod lleoliad radio arall sy’n weithgar ar y pryd. Mae ganddyn nhw hefyd un o bedwar generadur diesel o Orsaf Moorside Edge y BBC, ger Huddersfield, a ddefnyddiwyd pan oedd toriad yng nghyflenwad y trydan, cyfnewidfa ffôn Strowder a chasgliad diddorol o falfiau.

Edrychwn ymlaen at ein digwyddiadau nesaf:

Ionawr 18fed, 7.00 y.h. Dr. Selwyn Williams yn siarad am ‘Radio Digidol Cymunedol’.

Ionawr 25ain, Noson Ffilm yn Theatr Twm o’r Nant,i godi arian i’r Amgueddfa.

Chwefror 15fed, 7.00 y.h.,Tony Vine yn siarad am ‘Daearyddiaeth, Daeareg a Gemau’.

Mawrth 2il, 10.00-12.00, Bore Coffi yn yr Amgueddfa.

Mawrth 15fed, 7.00 y.h., bydd Siaradwyr o StudioMADE, yn cyflwyno Darlith Flynyddol David Edward Hughes ac yn siarad ar ‘Celf, Gwyddoniaeth a Thechnoleg’.

Noson Gwis i’w threfnu.

Croeso cynnes i bawb i bob un o’r digwyddiadau.


## Y PARCH. GEORGE EMLYN JONES

Trist eithriadol oedd clywed am farwolaeth annhymig y Parch. George Emlyn Jones, gŵr hynod o annwyl ac agos at rywun.

Ar ran criw’r Bigwn a’n holl ddarllenwyr, carwn ddatgan ein cydymdeimlad a chynnig gair o gysur i Lilian ei wraig ac Arwel y mab, yn eu colled.

# Tudalen y Plant





Cylchair – Cofiwch fod llythyren olaf un gair yn ddechrau i'r gair sy'n dilyn e.e. drwsiocledafad. Cofiwch hefyd mai un llythyren ydi ch, dd, ff a.a

✦ - man cychwyn

Cyllell a -___ (4)
Hel (6)
Dau ddeg (5)
Gwraig taid (4)
Rydych chi'n gwnio hefo hon (6)
Diwrnod cyn heddiw (3)
Eira a glaw (6)
Crio (4)
Mwy nag un awr (5)
I fyny'n yr awyr (4)
Math o gawl (8)
Lle i olchi llestri (4)
Mae hwn yn dweud yr amser (4)

Lliwiwch y llun yma o Sion Corn yn cael hoe fach.

Pa 'A' mae Siôn Corn yn eu rhannu?
Pa 'C' sy'n tynnu sled Siôn Corn?
Pa 'G' ydi lliw locsyn Siôn Corn?
Pa 'G' sydd ar y goeden nadolig?
Pa 'C' fyddwch chi'n wneud pan fydd Siôn Corn yn galw?
Pa 'Ll' ydych chi'n 'i 'sgrifennu i Siôn Corn?
Pa 'C' ydi'r criw sy'n helpu Siôn Corn?
Pa 'C' sy'n oleuadau i gyd?
Pa 'T' ydych chi'n eu rhoi o gwmpas y tŷ?
I lawr pa 'S' y daw Siôn Corn i'r tŷ?

Mae'r atebion ar dudalen (26)



# 'HOLI A STILIO' YNG NGHWMNI MAIR SPENCER



Mair Spencer dw i, o Nefyn yn wreiddiol ond wedi byw yn Nyffryn Clwyd ers hanner canrif gan gynnwys Rhuthun a Chlocaenog cyn symud yma i Ddinbych bron i ugain mlynedd yn ôl. Dw i'n briod efo Peter, ganed inni chwech i ferched ac mae gynnon ni chwech o wyresau.

**Beth ydi dy atgof cynta' di?**

Dydy fy atgof cynta ddim yn brofiad pleserus. Tair oed oeddwn i ac yn mynd i Ysbyty C&A Bangor i dynnu fy nhonsils. Cofio'r diwrnod fel tasai hi'n ddoe. Cael mwgwd drewllyd ar fy wyneb i 'neud i mi gysgu a fy ngwely oedd cot o haearn du. (Dwi'n dangos fy oed rwan)!! Diolch i'r drefn fod pethau wedi newid. Pan gafodd un o fy merched i ei thonsils allan roedd y profiad yn llawer mwy pleserus (os dyna'r gair) na fy un i.

**Pa dri lle sy'n bwysig iti?**

Y tri lle sy'n bwysig i mi ydy :-

Fy nghartref yma yn Ninbych efo'r teulu, mae'n lle hwylus iawn i fyw ac yn agos i'r pwll nofio!! Hefyd dydy o ddim yn bell o Rhuthun lle mae dwy o fy merched yn byw gyda'u teuluoedd ac yn ddigon agos i mi fynd yno i warchod.

Mae coedwig Clocaenog yn agos at fy nghalon. Treuliasom lawer o amser yn cerdded yn y goedwig efo Sam y ci, caslu mwyar duon, llus, chwilio am fadarch anarferol, gwrando ar yr adar yn canu a sylwi ar fyd natur yn ei anterth. Cerdded o gwmpas y llyn ym Mod Petrual a chael mynd i fewn i'r hen dŷ lle arferai'r cipar fyw, dyn oedd yn llawn o wybodaeth am y goedwig a llun anferth ganddo o blant yr ardal o dan y teitl "Plant y Goedwig". Arferem gael ambell i bicnic ar un o'r byrddau pren oedd rhwng y llyn a'r coed a rhaid oedd mynd â llian bwrdd efo ni i gael y teimlad o fod mewn tŷ bwyta crand!

Y trydydd lle, a'r mwyaf pwysig i mi, ydy Pen Llŷn gan fy mod wedi treulio un mlynedd ar hugain hapus iawn yn byw yn Nefyn lle'm ganed, rhwng y môr a'r mynydd. Treuliais y rhan fwyaf o fy mhlentyndod yn chwarae ar ochr y mynydd ac ar y traeth. Mae gen i atgofion hapus o nofio'n y môr, cerdded neu fynd ar y cwch i Borthdinllaen a Nant Gwrtheyrn gan bysgota am fecryll ar y ffordd. Yn yr haf ac yn y gaeaf ar benwythnosau, arferem ni'r plant fynd i Greigiau Mawr i gasglu cregyn.

**Beth sy' wedi achosi'r embaras mwya' i ti?**

Y peth achosodd yr embaras mwyaf i mi oedd syrthio i'r afon pan ar daith gerdded efo criw o ddysgwyr roeddwn yn eu dysgu ar gwrs wythnos yn Nant Gwrtheyrn. Ar ôl cynnal Noson Lawen yn y Capel y noson honno, gofynnodd fy nosbarth i mi os gallent wneud sgets roeddynt wedi ei baratoi eu hunain. Roeddwn wrth fy modd clywed hyn, ond yn poeni braidd nad oedd ganddynt ddigon o Gymraeg eto i wneud hyn o flaen dros hanner cant o bobl eraill.

Doedd dim rhaid deud dim. Sgets ohonof fi yn trio croesi'r afon ar ôl gweddill y dosbarth oedd hi, ac 'roedd y ferch oedd yn chwarae Mair Spencer yn gwisgo ffrog yn union fel fy un i pan syrthiodd hi i mewn i ddarn o blastig mawr glas ar y llwyfan!! Wel sôn am chwerthin – roedd y gynulleidfa i gyd yn eu dyblau.

**Pwy ydi'r person mwya' diddordol rwyt ti wedi ei chyfarfod/gyfarfod?**

Y person mwyaf diddorol i mi ei chyfarfod erioed oedd Miss Jones a arferai fyw dros y ffordd a ni mewn tŷ o'r enw Glan Ffrwd. Cyn i Miss Jones a'i chwaer ddod yno i fyw. 'Alun House' oedd enw'r tŷ ond newidiwyd yr enw yn syth i'r Gymraeg. Roeddwn yn byw a bod yno, bob cyfle gawn i a hyd yn oed yn ei gwylio yn cerdded i'r ysgol bob bore ac yn ei dilyn am fy mod isio mynd efo hi i'r ysgol. Cefais fynd i'r ysgol yn dair oed a hi ddysgodd i mi ddarllen pan oeddwn yn ifanc iawn. Yn fwy na dim dysgodd i mi pa mor bwysig oedd yr iaith Gymraeg ac i mi gofio ei pharchu bob amser. Prynodd lawer iawn o lyfrau Cymraeg i mi gan gynnwys rhai Elizabeth Watkin Jones i gyd a llyfrau barddoniaeth I.D.Hooson. Pan ballodd ei golwg roeddwn i yn darllen 'Y Cymro' bob wythnos iddi cyn ei anfon ymlaen i Batagonia. Mae Robyn Lewis, y cyn-archeddrwydd wedi sôn amdani yn un o'i lyfrau hefyd. Roedd Jenny Jones, yn amlwg, wedi creu argraff arnos fo hefyd. (Er gwybodaeth, - ei nith ydy Eleri Wyn Jones, gwraig y diweddar Bedwyr Lewis Jones.).

**Beth sy'n dân ar dy groen di?**

Un o'r pethau sy'n dân ar fy nghroen yw pan mae pobl y deud bod y Gymraeg yn iaith estron. Roeddwn mewn siop yn Llandudno yn ystod yr haf pan ofynnodd gwraig oedd yn gweithio yno i mi pan iaith oeddwn yn ei siarad efo'r plant. Mae isio gras weithiau!!!

**Oes 'na un peth arbennig yr hoffet ei wneud yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesa 'ma?**

Hoffwn gerdded i fyny'r Wyddfa. Dywedodd yr arbenigwr wrthyf ar ôl i mi gael triniaeth ar fy ysgyfaint, wyth mlynedd yn ôl bellach, na faswn i byth yn gallu cerdded i fyny mynydd na bryn serth eto. Dwi wedi concro Moel Famau ddwywaith ers hynny i baratoi fy hun ar gyfer yr antur fawr nesa.

**Sut fyddi di'n treulio dy oriau hamdden?**

Mae fy oriau hamdden yn bethau prin ar hyn o bryd, ond byddaf yn mynd i Merched y Wawr, Y Gymdeithas Gymraeg, cymdeithasu efo ffrindiau dros ginio bach a mynd i nofio ben bore.

**Pa dri chyngor fyddet ti'n eu rhoi i Brif Weinidog nesa'r Cynulliad?**

Dod a mwy o bolisïau i warchod yr amgylchedd.

Buddsoddi mwy yn y gwasanaeth iechyd.

Gosod mwy o safleoedd i ailwefru ceir trydan drwy Gymru gyfan.

**Pa fath o raglenni teledu sy'n rhoi'r pleser mwya' iti? Oes gen ti ffefryn?**

Dim ond rhaglenni Cymraeg fyddai'n i gwylio. Dw i'n hoff o raglenni natur, Garddio a Mwy efo Sioned ac Iwan, Pobl y Cwm a Rownd a Rownd.

**Rhanna gyfrinach fach efo ni.**

Dw i'n dal i fynd i 'Slimming World' neu 'Byd y Colli Pwysau' (cyfrinach) y dyddiau yma dw i'n talu i weld pobl eraill yn colli pwysa'! Ond mi ddaw tro ar fyd.


**Â'r 'Dolig ar y trothwy, ewch chi allan i fwyta o gwbwl?**

Mwy o weithiau eleni na'r arferol gan ein bod yn dathlu ein priodas aur ychydig wythnosau cyn y Nadolig.


**Mae siopa a'r 'Dolig yn gwlwm tynn. Ydi'r gŵr yn un da am gario bagia'?**

Fydd y gŵr byth yn mynd i siopa!!

Welsoch chi'r drychiolaethau yma'n crwydro'r adral ar noson Dygwyl y Meirw, yn stelcian yn y cysgodion yn brefu 'Bw' a chodi arswyd ar bobol bach ddiniwed? Mae isio gras a 'mynadd Jôb hefo rhai. Os do, ac yn gwybod pwy ydyn nhw, rhowch eu henwau dan y lluniau.
Mae'r atebion ar dudalen (17)



1__________________



2__________________



3__________________



5__________________



6__________________



4__________________

## ENGLYNION BEDD

Ledled Cymru, yn y Wladfa, Lloegr a'r Unol Daleithiau y mae tua ugain mil o englynion bedd. Mae'n bosibl bod y cynharaf yn dyddio o 1570 ac mae'n draddodiad amrywiol, cyfoethog ac un sy'n fyw hyd heddiw. Cyhoeddwyd sawl casgliad dros y blynyddoedd ond erys rhannau helaeth o Gymru heb eu harchwilio, ac yr ydym yn prysur golli llawer i draul yr hin. Yr ydym hefyd yn colli'r wybodaeth leol sydd ei hangen i'n goleuo am gynnwys a chyd-destun llawer ohonynt. Er mwyn ceisio diogelu'r agwedd hon ar ein treftadaeth y mae cynllun ar y gweill i gofnodi'r cwbl trwy dynnu lluniau ohonynt. Y mae eisoes miloedd o luniau ar y grŵp Facebook *Englyn Bedd* ond mae angen pobol a fyddai'n fodlon ymweld â'r mynwentydd lleol a thynnu lluniau gyda'r smartphone. Byddem yn wirioneddol werthfawrogi pob cyfraniad. Mae croeso ichi ymuno â'r grŵp Facebook neu anfon neges i gutorhys@yahoo.com.

Dr Guto Rhys

## GWASANAETH YN EGLWYS LLANDAF

Ar Dachwedd 11eg yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, cafwyd gwasanaeth diolchgarwch cenedlaethol i nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Un oedd wedi cael y fraint o gymryd rhan yn y gwasanaeth oedd Mari Wyn Jones, disgybl bl.11 o Ysgol Maes Garmon, wyres i Gwyrfai a Heather Jones. Cafodd Mari wahoddiad gan Lywodraeth Cymru i ddarllen cerdd o'i heiddo, 'Yr Enaid Byw', wedi iddi ennill cystadleuaeth genedlaethol yr elusen 'Never Such Innocence' yn 2017. Roedd cael darllen y gerdd yn ingol iawn i'r teulu gan i daid Gwyrfai, William Robert Williams o Gwm-y-glo, gael ei ladd ym mrwydr y Somme yn Ionawr 1917. Roedd y gwasanaeth wedi ei ddarlledu'n fyw gan y BBC a S4C, a chafodd Mari ei chyflwyno i Iarll a Iarlles Wessex wedi'r gwasanaeth.

Yn ogystal â darllen ei cherdd yn Llandaf, cafodd Mari gyfle i ymuno â'r holl enillwyr eraill ym Mhalas Buckingham ar Dachwedd 7fed, mewn digwyddiad oedd wedi ei drefnu gan 'Never Such Innocence'. Elusen yw NSI sy'n hybu ieuenctid heddiw i ddysgu a chofio am erchyllderau y rhyfel mawr ar ffurf cân, cerdd a chelf. Mae cerdd Mari wedi ei hargraffu mewn antholeg arbennig sy'n cynnwys holl gerddi a lluniau yr ieuenctid enillodd wobrau rhwng 2014-2018.

Dyma gerdd fuddugol Mari:

'Yr Enaid Byw'

Disgwyl arswyd, disgwyl angau,
Disgwyl anfad ac anafiadau,
Wedi oriau o ddiflastod
Brwydr waedlyd ddaw'n annatod.

Colli hyder a cholli ffydd,
Colli gobeithion i fy hun
Pan ddaw'r gelynion dros y bryn
A ninnau'n sefyll yno'n syn...

Profi'r gwaed a phrofi'r gwallgof,
Profi'r pryder ddaw yn angof;
Yr arfau'n rhuo hyd y wawr:
Gwn mai uffern yw fy myd nawr...

Cofio'r bechgyn, cofio ffrindiau,
Cofio'r hunllef o flinderau;
Mi gefais innau ras fy Nuw -
Ond marw bydd fy enaid byw.

## O'R GEIRIADUR: SBONCEN

Swyddogaeth *Geiriadur Prifysgol Cymru* yw cofnodi a disgrifio datblygiad geiriau dros amser. Nid ydym byth yn bathu geiriau newydd – mae yna sefydliadau eraill yn gyfrifol am hynny, megis Canolfan Bedwyr. Sut mae mynd ati i fathu term neu air newydd? Mae rhai geiriau yn amlwg yn fenthyciadau o'r Saesneg e.e. abacws, datwm, ac eraill yn gyfuniadau o elfennau sy'n bodoli eisoes e.e. gliniadur, cad-drefniad, ond mae'na ambell un sy'n fwy creadigol!

Mae llawer o bobl yn cadw'n iach drwy chwarae sboncen, sef, yn ôl y Geiriadur, *Gêm i ddau neu bedwar o chwaraewyr a chwaraeir â racedi a phêl rwber fechan a fwrir yn erbyn waliau cwrt caeedig.*'*Squash'* yw'r enw Saesneg ar y gêm, ac mae'r gyfrol *Termau Chwaraeon* 1965 yn cynnig cadw at hynny, a *Geiriadur Termau* 1973 yn cynnig *sgwas*. O ble felly daeth yr enw *sboncen?* Yn ôl Dr. M. P. Bryant-Quinn, gofynnwyd i'r Athro Stephen J. Williams gymreigio'r enw gan banel cyfieithu termau y Bwrdd Gwybodau Celtaidd. Yr oedd yn ysgolhaig o fri a ddyfeisiodd gannoedd o dermau Cymraeg, yn enwedig ym maes chwaraeon. Bu farw ym 1992, ac mae coffadwriaeth iddo gan D. Ben Rees yn sôn am ŵr bywiog, cyfeillgar a chymdeithasgar. Mae'n debyg ei fod hefyd yn un arbennig o dda am ddweud stori, a dyma'r hanes adroddwyd ganddo am fathu'r enw *sboncen*.

Wedi derbyn y gwahoddiad i gymreigio'r enw, fe aeth yr Athro Williams i'r gampfa i wylio pobl yn chwarae'r gêm. Wrth iddo syllu o'r oriel a gwrando ar y belen yn taro yn erbyn wal y cwrt ac yn rhybedian, daeth y gair *sbonc*, yn yr ystyr *adlam,* i'w feddwl, gyda sŵn y gair Cymraeg yn cyfateb yn union i'r hyn yr oedd yn ei glywed wrth i'r gêm fynd rhagddi. Atodi'r terfyniad *-en* wedyn, a dyna greu'r gair!

Esiampl dda o enw yn dynwared y weithred mae'n cyfeirio ati, a chipolwg ddifyr ar y broses o fathu enwau. Gyda'r gaeaf ar y trothwy, a'r nosweithiau'n medru bod yn hir, cymerwch y cyfle i bori yn GPC ArLein gan gofio am yr hanesyn bach hwn a chwilio am enghreifftiau tebyg:http://gpc.cymru

## AIL AGOR Y LLYFRGELL

Cafodd y gwaith o adnewyddu Llyfrgell a Siop Un Alwad Dinbych ei ddathlu mewn agoriad swyddogol ddechrau Hydref, gan nodi pennod newydd yn ei hanes. Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, Yr Arglwydd Elis-Thomas A.C, agorodd y cyfleuster yn swyddogol, wedi gwaith a oedd yn cynnwys ail-addurno helaeth i greu mynedfa ddeniadol a hyblyg ar gyfer gwasanaeth llyfrgell modern a siop un alwad. Soniwyd am bwysigrwydd a gwerth ein llyfrgelloedd i bob oed a'r gwahaniaeth a'r dylanwad y gall adnodd o'r fath ei gael ar ein cymunedau.

Yn rhan o'i anerchiad, darllenodd dri englyn o waith Arwel Emlyn Jones â 'sgrifenwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Tri englyn, tair gem. Diolch Arwel.

<u>Llyfrgell y dref, Dinbych</u>

Adfywhau mynedfa hen – a Dinbych
yn danbaid dros ddarllen,
Awn yn llawn o garu llên
I dawelwch tudalen.

Hen gloriau yn ddisgleiriach – awn yno'n
gymuned ehangach,
Mae o'n gylch awyrgylch iach
I brofi darllen brafiach.

Daw'r wedd sy'n newydd drwyddi – i'r geiriau
a garwn a'r cwmni,
Cawn ail agor hen stori
Yn ei phenod hynod hi.


Arwel Emlyn Jones

**Atebion TACHWEDD 2018**

**Ar Draws :**
9. Anadlu
10. Gordaliad
11. Stiwdio
12. Troedle
13. Trawmatig
15. Tolldy
16. Clwb Rygbi Dinbych
19. Iasol
21. Gwrthredol
22. Ehangdra
24. Niferus
27. Meithrinfa
28. Arian

**I Lawr :**
1. Caws
2. Halibalw
3. Clod
4. Agnostig
5. Arctig
6. Baco
7. Diadell
8. Adlewyrchol
13. Tacsidermi
14. Morol
15. Teiar
17. Israniad
18. Bydwraig
20. Statig
21. Gwadnu
23. Deri
25. Fran
26. Swnt

# CROESAIR RHAGFYR 2018



**Ar Draws :**
7. Mae'n trefnu gwaith i actorion
9. Craig mewn orbit o amgylch yr haul
10. Popty ping?
11. Rhoi egni ee i fatri'r ffôn
12. Tanwydd i'r car
13. Dod yn aelod eto
15. Storm â chanol llonydd
17. Anghymwys
20. Micro-organeb
22. Sicrhau cywirdeb
23. Nid lle i fyw yn y Gaeaf
25. Symudiad mewn dawns werin – ar lan y môr?
26. ........ Caerdydd, tîm rygbi rhanbarthol
27. Cenhedlu

**I Lawr :**
1. Dinas sy'n enwog am ei phrifysgol
2. Wedi ei ychwanegu
3. Arian i ddigolledu ee am ddifrod
4. Eitem a ychwanegir at wisg
5. Cweryl
6. Cell nerfol
8. Cyllell neu esgid pigfain
14. Ffiaidd
16. Yn perthyn i wlad Sgandinafaidd
18. Plygu papur
19. Gwerth pump o'r papurau â llun Adam Smith ar y cefn
21. Tynnu a gollwng gwynt
22. Siopwr arbennigol
24. .... Williams, El Bandito

sir ddinbych denbighshire
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

JWilliams
BLAS DA
EICH CIGYDD LLEOL
124 Stryd y Dyffryn
Dinbych Ll16 3BS
01745 812585


# MICI PLWM, H.M.S GANGES A GALLT-Y-COED

Gwrando ar raglen Aled Hughes 'ro'n i, 'chydig wythnosa'n ôl bellach, a chlywed Michael Lloyd Jones, neu Mici Plwm i chi a fi, yn ail fyw profiada'i blentyndod. Soniwyd yn y cyfweliad am y gyfrol 'Meical Ddrwg o Dwll y Mwg', cofnod o hanes y blynyddoedd cynnar a phrofiada' 'sgytwol y teulu bach, cyfrol chwerw felys a welodd olau dydd yn 2002 – un o 'Cyfres y Cewri'.

Ynddi, mae'n disgrifio chwalfa'r teulu pan fu'n rhaid i'w fam, oherwydd cyflwr ei hiechyd, ddod yma i Ddinbych i dreulio cyfnod yn yr Ysbyty Meddwl – cyfnod a barodd bymtheng mlynedd. Chwarelwr oedd ei dad, gwaith a olygai oriau meithion heb weld y plantos, sef dwy chwaer a dau frawd – y chwaer hyna' ond yn wyth a'r fenga'n dal yn 'i glytia'. Sefyllfa eithriadaol o fregus na ellid, ym mhen amser, ei chymeradwyo na'i chyfiawnhau, a bu'n rhaid dilyn gofynion yr Awdurdodau – trefn y bu'n rhaid plygu iddi, a chartra plant oedd yr unig ddewis, sef hen blasdy o'r enw Bryn Llywelyn oedd ar gyrion Llan Ffestiniog, a thafliad carreg yn unig o'r hen dŷ, ble'r oedd eu tad yn dal i fyw.

Diflannodd y blynyddoedd a daeth yn amser sefyll arholiada', meddwl am yrfa ac ennill ei damaid. Roedd Meical â'i fryd ar fynd i'r weinidogaeth ond cyn hynny roedd y môr yn dynfa ac fel llawer o hogia' mawr Bryn Llywelyn y cyfnod, oedd wedi mynd i'r cyfeiriad hwnnw, dyna ddechra' meddwl o ddifri'. Mae o'n cofio un ohonyn nhw Reggie, yn dod adra am y tro cynta' mewn lifrai smart a'r geiria' 'H.M.S Ganges' ar ei frest – llong hwylia' yn Gravesend oedd yn ganolfan hyfforddi ar gyfer ymuno â'r llynges. Ond, doedd 'i dad ddim yn or-awyddus iddo ddilyn y llwybyr hwnnw a rhoed caead ar y syniad.

A dyna ichi agor y drws i'r stori fach 'ma sy'n dilyn. Y munud y gwelis i'r enw H.M.S Ganges yn y gyfrol, mi ganodd 'na gloch ac mi gwadnis hi am y parlwr a 'mystyn am sliff ucha'r hen ddresel. Yno, mae 'na ganwyllbrenna', dwy ohonyn nhw, wedi eu turnio o goed a fu unwaith yn rhan o'r llong 'H.M.S Ganges'. Ac arnyn nhw, wedi ei gofnodi ar blatiau bach metel, mae'r geiriau –



H.M.S "Ganges"

Dechreuwyd ar y gwaith o'i hadeiladu ym 1819 ac fe'i lansiwyd yn 1821 ac yna ei chomisiynu yn fanerlong i'r llynges. Yn enw'r Ymerodraeth Brydeinig bondigrybwyll bu â'i thrwyn ymhob rhyw fusnes a chythrwfwl mewn sawl gwlad ac ar sawl cefnfor. Ar ôl bod wrthi'n corddi'r dyfroedd, dychwelodd i Loegr i ddechrau cyfnod arall fel llong hyfforddi ym 1865. Roedd hi'n honglad o long, yn pwyso 2,284 o dunelli, bron yn 200 troedfedd o hyd a rhyw 50 troedfedd o led ac roedd dyfnder yw howld dros ugain troedfedd. Ond, roedd ei maint yn ddigon i sobri rhwyun, ond, yn waeth byth, roedd 'na 84 o ynnau er ei bwrdd. Dipyn o fwli!



Dw i'n rhyw fudur cofio mai yng Nghallt y Coed y daethon ni ar draws y canwyllbrenna' 'ma pan oedden ni'n dechra' clirio'r tŷ ar ôl i Mathonwy Hughes a Mair ei wraig ein gadael ni. Mi fyddai'n ddiddordol iawn cael gwybod o ble yn union y daethon nhw, a phryd.

Turniwyd y canwyllbrenna' yma o bren Tîc H.M.S. 'Ganges' - y llong hwyliau olaf i wasanaethu fel banerlong. (Yn y Saesneg wrth gwrs)

PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

# NI DDAW DOE FYTH YN ÔL

Mae sefyll ar ben dref Dinbych heddiw yn adlewyrchu geiriau R.Williams Parry yn ei gerdd Eifionydd – 'A llonydd gorffenedig yw llonydd y Lôn Goed'.

Ers agor y datblygiadau newydd yng ngwaelod y dref – hyn yn groes i ddymuniadau canran go uchel o'r trigolion, ond a dderbyniodd sêl bendith yr awdurdodau, mae'r Stryd Fawr yn farwaidd. Mae sawl busnes wedi diflannu – 'does dim un siop 'sgidiau, siop ddillad na siop gigydd ar gael, heb sôn am y nifer o siopau eraill sydd wedi gorfod cau eu drysau.

Gan ei bod yn gwbl dymhorol, nis gallaf beidio â'ch dwyn yn ôl i'r amser cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, adeg y Nadolig. Gan fy mod eisioes wedi cyfeirio at y cigyddion, rhaid i mi roi sylw i'r gwahaniaeth rhwng ddoe a heddiw.

Erstalwm, yn y Farchnad Gig Nadolig, yn ôl pob sôn, Thomas Davies, yntau'n hen daid i Ceredig Gwynn, fu'n prynu'r goreuon o'r anifeiliaid. Aeth ei ddisgynyddion, Pierce Davies, ac wedyn Glyn a Thomas Owen Davies ymlaen gyda'r busnes bwtsiera o'u siop yn Stryd y Bont. Ond fy mwriad i heddiw yw canolbwyntio ar y farchnad yn hytrach nag ar y siopau. Prynhawn Sadwrn, wythnos cyn y Nadolig, byddai gan Thomas Davies orymdaith o'i holl anifeiliaid graenus trwy rai o brif strydoedd y dref. Y dyddiau yma, bustych a heffrod, tua dwyflwydd oed a leddir, ond bryd hynny, teirw a buchod anferth eu maint oedd y ffefrynnau. Byddai tyrfa fawr o'r trigolion wedi troi allan i'w hedmygu. Ganol nos y diwrnod canlynol, cyrchai llawer o bobl i ladd-dai'r dref i wylio'u tranc.

Ers blynyddoedd, 'roedd gan Ddinbych ddiwrnodau pwysig yn ei hanes – Sasiwn, Cymanfa, Eisteddfod, Cyrddau Pregethu ac yn y blaen, ond un noson arbennig iawn oedd Noson Farchnad Fawr cyn y Nadolig pryd y byddai bron pob teulu yn troi allan – oedolion a phlant, gyda channoedd yn cyrraedd o'r pentrefi oddi amgylch. I'r plant, yr oedd hon yn noson bwysig iawn – dyma'r unig amser yn ystod y flwyddyn y caniateid iddynt aros allan mor hwyr.

Bryd hynny, 'roedd y Farchnad fan ble mae Neuadd y Dref heddiw, gyda'r Farmers' Arms y drws nesaf at y gornel efo Lôn y Goron. Dyma'r unig amser yr oedd yr adeilad yn cael ei oleuo gyda nwy, ac 'roedd popeth felly, i'w weld yn gliriach nag hyd yn oed yn ystod golau dydd.

Agorid y drysau mawr yn brydlon am chwech o'r gloch gyda phawb yn hyrddio drwyddynt, ac ymhen ychydig funudau 'roedd y farchnad yn orlawn.

Yn y rhan gyntaf, 'roedd y stondinau ffrwythau – y gellyg, yr afalau, yr orennau a'r lemonau wedi eu trefnu fesul gris yn dwt. Nesaf, a dyma oedd y nefoedd i'r plant, oedd y tyrrau anferth  o daffi a fferins oedd yn ddigon i dynnu dŵr o'u dannedd. I'r oedolion, yr adran gig oedd y prif atyniad, ac yr oedd dwsin a mwy o stondinau yno, pob stondin wedi'i haddurno'n gelfydd gyda brigau o gelyn oedd yn adlewyrchu ansawdd cochni'r cig gyda gwyndra'r brasder, yn crogi fel milwyr pren uwchben y byrddau. Ar y silffoedd yr oedd y cig oen a'r porc a hefyd rhesi o dyrcwn, gwyddau a chywion ieir yn nythu'n daclus ochr yn ochr â'u gilydd. Ar y llawr, ar gyfer y tlodion decini, yr oedd pentyrrau o wningod a 'sgfarnogod heb eu blingo. 'Doedd dim ots rhywsut os oeddech yn gyfoethog a'i peidio, y sioe oedd yn bwysig, ac yn sicr, roedd yr arddangosfa, heb i mi sôn am y stondinau llysiau, cancennau, pwdinau, tegannau, ac yn y blaen, yn ddigon i'w ryfeddu ato.

Gan fod cymaint o bobl yno, roedd hi'n anodd symud i unrhyw gyfeiriad. 'Roedd 'na farchnad arall hefyd, honno'n un gwbl agored, o dan y Neuadd Sirol, a honno hefyd yn orlawn.

Wedi llwyddo i fynd allan, gan amlaf, dan lwyth o gig, roedd yn rhaid treulio awr neu ddwy wedyn yn crwydro dwy ochr y Sttyd Fawr – honno hefyd dan ei sang, i fwynhau'r arddangosfeydd yn ffenestri'r siopau, a rheini, yn ôl traddodiad, wedi'u haddurno'n Nadoligaidd. Yno yr oedd nwyddau o bob math wedi eu trefnu'n chwaethus i ddenu pawb yn ôl i brynu cyn y Nadolig.

Gan nad oedd digon o ofod yn y ddwy farchnad dan do, roedd nifer o stondinau wedi eu gosod ar ganol y stryd, a rheini'n dibynnu ar lampau olew ac yn ychwanegu at yr awyrgylch Nadoligaidd eto.

Wel, ni ddaw Noson Fawr y Nadolig, fel yr oedd hi ganrif a mwy yn ôl, i'n difyrru eto, ond mae hyd yn oed meddwl am y prysurdeb a'r hwyl yn ddigon i godi hiraeth arnom.

R.M. (Bobi) Owen.







# YSGOL GLAN CLWYD

**Gwasanaeth Diolchgarwch.** Cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch bendithiol unwaith eto eleni yn y Gadeirlan. Cymerwyd rhan gan unigolion, partïion a chorau.

**Gŵyl Chwaraeon bl 6.** Bu dros 200 o ddisgyblion bl 6 Ysgolion y Clwstwr mewn Gŵyl Chwaraeon a drefnwyd ar y cyd gyda Aled Williams ein Swyddog 5 x 60. Roedd y disgyblion cynradd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau, ac mae ein diolch i fyfyrwyr 6ed dosbarth am eu cymorth trwy'r dydd.

Enillodd Ysgol Glan Clwyd wobr yn ddiweddar o gael dosbarth meistr celf gyda'r meistr arlunydd ei hun, yr arlunydd Cymreig enwog Keith Bowen, a ddaeth i'r ysgol ar Hydref 24ain i gyd-weithio hefo'r disgyblion – atgof am byth i'r ffodusion breintiedig a gymerodd ran.

**LLONGYFARCHIADAU MAWR** i'r canlynol ar gael eu dewis i gynrhychioli'r Sir mewn cystadleuaeth Pêl Rwyd Gogledd Ddwyrain Cymru yng Nglannau Dyfrdwy, pnawn Gwener 16/11/18. Da iawn chi genod.

Bl8 - Erin Baxter, Hollie Davies, Annie Harrison; Bl9 - Nansi Davies; Bl10 - Ffion Evans, CatrinBurgess; Bl11 - Sacha Didcote, Celyn Pritchard, Miriam Owen, Ana Davies, Fflur Evans, Beth Evans; Bl13 - Annie Winter

Bu Josie Smith Blwyddyn 12 yn chwarae pêl-droed yn Serbia gyda thîm Pêl-droed Merched Cymru. Da iawn ti Josie!

**Gŵyl Cerdd Dant.** Braf oedd gweld disgyblion a staff ar y llwyfan yn yr Wŷl Gerdd Dant a gynhaliwyd ym Mlaenau Ffestiniog ar Ddydd Sadwrn, Tachwedd 10fed. Llongyfarchiadau i bawb fu'n perfformio:

Owain John Jones - Cyntaf ar yr Unawd Cerdd Dant Bl 7 - 11
Erin Swyn Williams - Ail ar yr Unawd Alaw Werin Bl 7 - 11
Mali Elwy Williams - Ail ar yr Unawd Cerdd Dant Bl 12 hyd at 21oed

Roedd nifer o'n disgyblion a staff yn aelodau o Hogia'r Berfeddwlad, Parti Trillyn a Chôr Lleisiau'r Nant. Da iawn pawb.

**Sul y Cofio.** Diolch i'n Prif Swyddogion – Gwen Edmunds a Rowan Hughes am gynyrchioli'r Ysgol yn y Gwasanaeth Sul y Cofio wrth y Gofeb yn Llanelwy ac am osod torch er cof ar ran yr Ysgol.

**Plant Mewn Angen 2018.**Bu nifer o weithgareddau ar gyfer codi arian i'r elusen yma eto eleni. Uchafbwynt y gweithgareddau oedd dilyn ôl troed Aled Hughes - Radio Cymru a cael bron i 500 o ddisgyblion a staff i gymryd rhan "Pawen Lawen" Ewch i www.twitter.coma chwiliwch am Ysgol Glan Clwyd – mae'n werth ei weld! Bu nifer o'r disgyblion a staff hefyd yn gwisgo tei a/neu sannau lliwgar hefyd a chafwyd stondin gacennau a glitter gwyneb hefyd. Fe godwyd dros £400.

**Llongyfarchiadau** i'n disgyblion sydd yn perthyn i amryw o Glybiau Ffermwyr Ifanc yn yr ardal. Mae nifer ohonynt ar eu ffordd i gystadlu yn yr Eisteddfod yn y Bari ar Dachwedd 17eg. Llongyfarchiadau hefyd i Gethin Williams ar ennill Person Stoc Ifanc y Flwyddyn, Sir Clwyd. Bydd yn cynrychioli ei glwb yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd ddiwedd y mis.

**Llongyfarchiadau** hefyd i Elin Edwards ar ennill cadair Eisteddfod Llandyrnog.

**Llongyfarchiadau** i dîm Ysgol Glan Clwyd a gymerodd ran yng Nghwis Pop Radio Cymru nos Iau, Tachwedd 15fed. Roedd hi'n gystadleuaeth agos iawn, ond yn anffodus colli oedd eu hanes tro yma i Ysgol Bro Hyddgen o 15 pwynt.

Bydd ein Gwasanaeth Carolau blynyddol yn cael ei gynnal yn y Gadeirlan yn Llanelwy ar nos Iau, Rhagfyr 20fed am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb ohonoch ymuno hefo ni i ddathlu'r Wŷl.



**Llongyfarchiadau** i Jacob Evans ar ennill yn unigol ym Mhencampwriaeth cystadleuaeth dadlau Ysgolion Cymru yn ddiweddar.

## Drychiolaethau

1. Gwyrfai
2. Gareth
3. Nerys Ann
4. Sian Rogers
5. Nerys Davies
6.Hywel






# ADRODDIAD EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANDYRNOG 2018

Nos Wener 9 Tachwedd, cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus dros ben eto eleni gyda'r beirniaid yn canmol safon uchel iawn y cystadlu ar lwyfan ac yn y cystadlaethau gwaith cartref – gyda bron i 500 yn cystadlu yn yr adrannau arlunio, graffeg gyfrifiadurol a llenyddiaeth. Bu oddeutu 100 o blant a phobl ifanc yn cystadlu yn frwd ar y llwyfan. Cafwyd cystadleuwyr lleol, yn ogystal â rhai o gyn belled â Phwllheli, Caerdydd a'r Eidal! Enillydd y Gadair eleni oedd Elin Edwards, Llansannan sy'n ddisgybl yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy. Roedd y gwaith creadigol hwn o'r safon uchaf yn ôl y beirniad.

Eleni, y beirniaid oedd: Ceri Roberts, Henllan (Cerddoriaeth); Rhian Iorwerth, Rhuthun (Llenyddiaeth a Llefaru); Nia Davies, Cefn Meiriadog (Arlunio) a'r cyfeilydd oedd Ann Edwards, Prion.

Rhaid diolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion, athrawon, rhieni, hyfforddwyr a'r cystadleuwyr, a'r tîm o wirfoddolwyr am gyfrannu tuag at lwyddiant yr Eisteddfod eleni eto. Diolch hefyd i holl noddwyr yr Eisteddfod; sef Bwrdd Crwn Dinbych a'r Cyffiniau, Clwb Llyfrau Llandyrnog, Cyngor Cymuned Llandyrnog, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Llais Llandyrnog Voice, Llandyrnog Tuesday Club, Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen a nifer o deuluoedd lleol.

I weld yr holl luniau o'r noson, ewch i wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.

**ENILLWYR EISTEDDFOD LLANDYRNOG 2018**

**LLENYDDIAETH**
**Y Gadair (dan 25 oed)**: **Elin Edwards, Llansannan Rhos**
Blwyddyn 2 ac iau: **Cadi, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 3 a 4: **Nest Emlyn, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 5 a 6: **Lleucu Jones, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 7 – 9: **Alys Jones, Ysgol Maes Garmon**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Nanw Maelor, Ysgol Maes Garmon**

**LLENYDDIAETH I DDYSGWYR**
Dysgwyr Blwyddyn 6 ac iau: **Evie Williams, Ysgol Gellifor**
Dysgwyr Blwyddyn 7 – 9 : **Eddie Perrin, Ysgol Bryn Hyfryd**
Dysgwyr Blwyddyn 10 – 21oed: **Sian Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**

**LLEFARU**
Blwyddyn Derbyn ac iau: **Megan**
Blwyddyn 1 a 2: **Annie, Ysgol Llanfair DC**
Blwyddyn 3 a 4: **Malan, Pen Barras**
Blwyddyn 5 a 6: **Efa Gwen, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Mali Elwy, Ysgol Glan Clwyd**

**LLEFARU I DDYSGWYR**
Blwyddyn 1 a 2: **Demi, Ysgol Bryn Clwyd**
Blwyddyn 3 a 4: **Ethan, Ysgol Gellifor**
Blwyddyn 5 a 6: **Ted, Ysgol Bryn Clwyd**

**CANU**
Blwyddyn Derbyn ac iau: **Leusa**
Blwyddyn 1 a 2: **Seren**
Blwyddyn 3 a 4: **Sion, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 5 a 6: **Beca, Ysgol Twm o'r Nant**



Mali, Erin a Gwenan - enillwyr y cyflwyniad llefaru, monolog neu gyflwyniad dramatig 5—8 munud

Blwyddyn 7 – 9: **Beca Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**
Blwyddyn 6 ac iau Cân Werin: **Beca, Dinbych**
Blwyddyn 7 – 9 Cân Ysgafn neu Sioe Gerdd: **Beca Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**
Blwyddyn 10 i 21 oed Cyflwyniad 5 - 8 munud: **Mali Elwy, Ysgol Glan Clwyd**

**OFFERYNNOL**
Blwyddyn 6 ac iau Piano: **Arthur, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 6 ac iau Offeryn arall: **Lea Mererid, Ysgol Cymerau**
Blwyddyn 7 – 9 Piano: **Beca Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**

**CERDD DANT**
Blwyddyn 3 ac iau: **Nêst Emlyn, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 4 – 6: **Beca, Dinbych**

**ARLUNIO**
Blwyddyn Derbyn ac iau: **Ifan Wood, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 1 a 2: **Megan, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 3 a 4: **Harry Lunde-Ferguson, Ysgol Gellifor**
Blwyddyn 5 a 6: **Alisha Whitehead-Hughes, Ysgol Bryn Clwyd**
Blwyddyn 7 – 9: **Elinor Wyn Griffith, Ysgol Glan Clwyd**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Tomos Wynstanley, Ysgol Bryn Hyfryd**

**GRAFFEG GYFRIFIADUROL**
Blwyddyn 2 ac iau: **Megan Jones, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 3 a 4: **Lloyd, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 5 a 6: **Aled Roberts, Ysgol Gellifor**
Blwyddyn 7 – 9: **Elin Ellis, Ysgol Glan Clwyd**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Owain Mckee, Ysgol Bryn Hyfryd**



Elin Edwards, Llansannan—enillydd y gadair

# COFIO ABERTH T. H. PARRY-WILLIAMS GANRIF ERS DIWEDD Y RHYFEL MAWR

Ganrif ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf daeth gwybodaeth newydd am yr effaith bellgyrhaeddol a gafodd y rhyfel ar un o feirdd a llenorion enwocaf Cymru – T. H. Parry Williams. Daw'r wybodaeth i'r fei mewn llyfr newydd sy'n bwrw golwg newydd ar brofiadau T.H. Parry-Williams fel gwrthwynebydd cydwybodol – *Pris cydwybod: T. H. Parry-Williams a Chysgod y Rhyfel Mawr* gan Bleddyn Owen Huws.

Roedd nifer o heddychwyr yn wynebu erledigaeth yn y gweithle ac yn eu cymunedau wrth sefyll fel gwrthwynebwyr cydwybodol yn ystod y rhyfel. Roedd yna bris uchel i'w dalu gyda rhai yn mynd i garchar ac amryw yn cael eu cam-drin; a gwthiwyd nifer at hunanladdiad. Yn achos T. H. Parry-Williams effeithiodd y rhyfel yn drwm arno, a bu bron iddo gefnu ar yrfa fel darlithydd oherwydd y rhagfarn yn erbyn ei ddaliadau.

"Roedd angen dewrder i sefyll yn erbyn llif y farn gyhoeddus a glynu wrth egwyddor amhoblogaidd. Mae rhaid aberthu weithiau er mwyn bod yn driw i'n hegwyddorion. Roedd mwy nag un math o aberth yn bod adeg y Rhyfel Mawr," meddai Bleddyn Owen Huws am ei arwr llenyddol.

Newidiodd cymdeithas i fod yn llawer mwy parod i ymgecru a dal dig, gyda sawl si am ysbiwyr yn y porthladdoedd ac ymysg yr heddychwyr, gyda'r heddychwyr yn cael eu gweld yn llwfr.

Ychwanegodd Bleddyn: "A dyna'r eironi mawr, oherwydd disgwyliai'r wladwriaeth i ddynion ymladd i warchod rhyddid a chyfiawnder, tra dadleuai rhai o'i dinasyddion fod cyflwyno consgripsiwn yn golygu nad oedd parch i ryddid yr unigolyn."

Mae'r gyfrol yma yn edrych ar yr effaith a gafodd y profiadau yma o ddirmyg a dieithrio ar ei fywyd personol a'i yrfa wedi'r rhyfel.

"Byth oddi ar imi ddarllen ysgrif *Y Pryf Genwair* gan T. H. Parry-Williams yr wyf wedi ymddiddori yng nghefndir yr ysgrif honno. Fe'i lluniodd bedair blynedd ar ôl iddo fod yn astudio pynciau gwyddonol fel myfyriwr israddedig gyda'r bwriad o fynd yn feddyg. Penderfynodd gefnu ar ei yrfa fel ysgolhaig Cymraeg a throi at wyddoniaeth ar ôl methu â chael ei benodi i'r Gadair Gymraeg yng Ngholeg Aberystwyth lle'r oedd, hyd at fis Medi 1919, yn ddarlithydd. Roedd llawer o bobl am geisio'i rwystro rhag cael ei benodi oherwydd ei fod yn heddychwr," meddai Bleddyn.

Bu rhaid iddo ymddangos o flaen tribiwnlys milwrol dair gwaith er mwyn cael caniatâd i aros yn ddarlithydd yn Adran Gymraeg Aberystwyth. Bu bron iddo golli'r cyfle i gynnig am y Gadair Gymraeg a swydd pennaeth yr Adran yn 1919 gan i nifer fawr ffafrio'i gyd-weithiwr (Timothy Lewis) a fu'n ymladd yn y fyddin, am y swydd. Doedd ei fam ddim yn cefnogi ei safiad heddychlon ond bu'n ffodus i un ochr o'i deulu ymfalchïo yn ei lwyddiant.

"Edmygaf ei barodrwydd i herio'r drefn a sefyll ei dir yn wyneb pwysau cyhoeddus go lethol. Ond bu'n rhaid iddo dalu'r pris am lynu wrth ei egwyddorion, fel sawl heddychwr arall," meddai Bleddyn Owen Huws, cyn ychwanegu "o ddarllen y cerddi a gyfansoddodd yn ystod y cyfnod [y Rhyfel] cawn yr argraff bendant o unigedd ac o ofn gwrthodiad."

Mae'r llyfr yn cynnwys nifer o ffeithiau newydd am sawl agwedd ar yr hanes a ganfuwyd mewn ffynonellau nad oes neb wedi eu trin na'u trafod o'r blaen: ei awydd am fod yn feddyg yn 1919 ac eto yn 1935; ei garwriaeth â'r meddyg teulu o Drawsfynydd, Dr Gwen Williams; a'i berthynas ag aelodau ei deulu. Ceir hefyd luniau sy'n gweld golau dydd am y tro cyntaf. Cyflwynwyd y gyfrol i Anne Meire, merch i frawd T. H. Parry-Williams, a'i merch Elen Wade.

Cafwyd lansiad llwyddiannus iawn i'r gyfrol yn yr Hen Goleg, Aberystwyth ar yr 24ain o Hydref. Cyflwynwyd copi o *Pris cydwybod: T. H. Parry-Williams a Chysgod y Rhyfel Mawr* i Ann Meire (Nanw), nith i T. H. Parry-Williams (merch Oscar, ei frawd), Elen Wade, gor-nith i T. H. Parry Williams (merch Nanw) ac i Lynn Thomas, nith i T. H. Parry-Williams ar ochr teulu Amy Parry-Williams.

Mae yna gynlluniau i gynnal cynhadledd undydd i goffáu canmlwyddiant penodi T. H. Parry-Williams i'r Gadair Gymraeg yn 2020.

Mae'r awdur Bleddyn Owen Huws yn uwch-ddarlithydd yn yr Adran Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn awdur adnabyddus ac mi fydd yn gwneud cyfres o ddarlithoedd i gyd-fynd â chyhoeddi'r llyfr yn ystod y flwyddyn nesaf.




**MEIRION DAVIES A'I GWMNI**

**01745 812400**

**Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych**

- Dillad a phethau fferm
- Bwyd anifeiliaid anwes
- Esgidiau a.y.b.
- Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones


# NADOLIG AR Y GORWEL

Wel, dyma ni. Ychydig dros bythefnos tan y diwrnod mawr gyda phob plentyn – ac ambell oedolyn – yn cyfrif sawl noson o gwsg sydd yna tan fore'r Ŵyl.
Rydwi'n hynod o gyffrous. Fedra' i ddim eistedd yn llonydd.
Os ydach chi'n fy 'nabod i'n dda, mae'n debyg fod darllen y geiriau uchod yn dipyn o syndod i chi o gofio fy mod i'n perthyn yn agos i Scrooge.
Eleni, fodd bynnag, rydwi wedi penderfynu mynd gyda'r lli' gan ymuno yn yr hwyl a'r sbri. Henaint ni ddaw ei hunan. Daw ag ambell ffolineb gydag o.
Cawn weld am faint y pery hynny.
Fe fyddai gan fy mam agwedd ddiddorol tuag at anrhegion Nadolig. Oni fyddech yn rhoi anrheg iddi ar fore'r Ŵyl, byddai wedi'i hagor ymlaen llaw.
Ac yn waeth na hynny, byddai hi'n d'eud wrthych chi ei bod wedi'i hagor hi.
Sawl gwaith y cawsom y neges ganddi dros y blynyddoedd, " Diolch am y goban. Fe gadwa hi'n ddiogel yn y drôr rhag ofn y bydda i'n gorfod mynd i'r hosbitol."
Un fel yna oedd hi gan ei bod hi wedi arfer byw yn ddarbodus gydag arian yn brin a hithau'n magu tri o blant ar gyflog chwarelwr.
Ydach chi wedi sylwi bod yr hen arferiad o roi anrhegion call neu betha' synhwyrol wedi dod i ben? Pryd y cawsoch chi 'sanau neu hancesi poced dd'wethaf?
Na, mae'n rhaid chwilio am rywbeth gwahanol bellach, ac yn amlach na pheidio ni chaiff y peth hwnnw ei ddefnyddio o gwbl ond ei drosglwyddo i rywun arall.
Dwi wedi bod yng ngofal raffl mewn sawl bore coffi a chlywed rhywun yn sibrwd yn gyfrinachol," Rhywbeth ar gyfer y raffl" gan wybod yn iawn bod yr hyn y maen nhw'n ei gyflwyno yn anrheg wnaethon nhw'iderbyn y Nadolig blaenorol.
Ac a oes yna anrheg sydd yn achosi mwy o boen meddwl na'r *voucher* bondigrybwyll?
Dd'wedwn ni eich bod chi'n derbyn tocyn llyfr am £20. Rydach chi'n mynd i chwilio am lyfr, ac yn darganfod fod ei bris o yn £24.99.
Hynny ydy', rydach chi'n gorfod rhoi pum punt arall o'ch poced eich hun ar ben y tocyn llyfr - a gawsoch chi'n anrheg -er mwyn cael anrheg i chi'ch hun!
Mae hynny yn 25% ychwanegol!!!
Dwi'n falch o ddeall fod yr ysgolion yn cau ynghynt cyn y Nadolig y tro hwn. Dyna ydy' gweledigaeth.
Golyga hyn y gall fy siopwraig bersonol - y ferch acw - wneud y cyfan o'r gwaith o brynu anrhegion ar fy rhan.
Mae hi'n mwynhau siopa. Felly pwy ydw i'w rhwystro hi.
Wel, well imi fynd i chwilio am yr addurniadau rŵan. Dwi wedi g'neud y gacen a'r pwdin yn barod! Heno fe wna i ysgrifennu ar y cardia'.
Tydi rhai pobl yn dda am raffu c'lwyddau, d'eudwch?
..........................................................
Yn ddiweddar, mi ges sbectol newydd. Bûm am dros wythnos cyn imi fentro ei rhoi ar fy nhrwyn. Pam? Dwn i ddim.
Yna ar ôl ei defnyddio - dan bwysau gan y wraig acw – fe ddechreuodd fy nhrwyn a thu ôl i'r clustiau frifo. Yn ôl at yr hen sbectol gyffyrddus fu hi cyn dychwelyd at yr optegydd.
Llai na phum munud gymerodd hi i unioni'r cam.
Tydi hi'n wyrthiol yr hyn y mae'r arbenigwyr yn gallu'i wneud.
..........................................................
Rhybudd coch!
Cymerwch bwyll gyda'r peiriant yna yn y maes parcio. Er ei fod o'n newydd, mae o'n hynod o anwadal. Gwnewch yn siwr ei fod o'n cofnodi pob darn o arian cyn pwyso'r botwm gwyrdd am eich tocyn.
Cawsoch eich rhybuddio. Dim ond gair i gall.

Stan Lyall

## FFEITHIAU BACH DIFYR!

1. Gall cigfran dan glo ddysgu siarad yn gynt na pharot.
2. Os 'dych chi'n pigo'ch trwyn bob munud, yna rydych chi'n dioddef o'r cyflwr "rhinotillexomania"!
3. Pan yrrwyd mymi Ramses 2 i Ffrainc yng nghanol y 70au rhoed, ymysg pethau eraill, basport a ddisgrifiai gwaith y Ffaro fel "Brenin (ymadawedig)".
4. Roedd omlet fwya'r byd yn 10 medr ar ei thraws.
5. Pan mae'r frenhines ar 'i thrafals, mi fydd ei sêt lle chwech personol hi ym mynd hefyd ynghyd â chybyddia' plu.
6. Wyddech chi fod 'na 49,000,000 o swigod mewn potel shampên a bod y pwysedd yn 90psi – sef tair gwaith y pwysedd sydd mewn teiar car.
7. Gwell gan Ringo Star ydi rhwbio aeliau â chi yn hytrach nag ysgwyd llaw! Pam? I osgoi trosglwyddo bacteria.


MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

Morgeisi
CARTREF
Mortgages
Cyngor Morgais Di-Ffi
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio
Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol
Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

# YSGOL TWM O'R NANT

Ar ôl cael hanner tymor bendigedig o ymlacio, rydym yn ôl yn yr ysgol, gyda'r plant yn gyffrous iawn, gan eu bod wedi cael dechrau paratoi at y Nadolig. Os dewch chi am dro i'r Ysgol yr adeg yma o'r flwyddyn, byddwch yn siwr o glywed carolau yn cael eu canu neu ymarferion sioeau Nadolig yn fwrlwm. Staff yn brysur yn chwilio a chwalu am wisgoedd, ac ambell i banig rhyw wythnos neu ddwy cyn y sioe!Cewch edrych ymlaen i weld lluniau o ambell sioe Nadolig yn yr rhifyn nesaf.



Rydym wrth ein bodd yn yr ysgol yn helpu i gasglu arian at achos da, a dyna fel y bu hi ar ddiwrnod Plant Mewn Angen eleni. Bu plant hynaf yr ysgol yn brysur yn creu stondinau a gemau i godi arian, a daeth staff a phlant i'r ysgol yn gwisgo pyjamas.



Cafwyd llwyddiant mawr yn ddiweddar gan blant blynyddoedd 3,4,5 a 6 yng ngystadlaethau nofio Sir Ddinbych a gafodd ei chynnal ym mhwll nofio Rhyl, a llawer o blant yr ysgol wedi dod i'r brîg. Bydd rhai o'r plant a ddaeth yn fuddugol yn cynrychioli Sir Ddinbych i lawr yng Nghaerdydd ddechrau'r flwyddyn nesaf. Da iawn wir a diolch i bawb a fu yn eu hyfforddi a helpu.



Bu plant yr uned dan 9 yn brysur yn cynllunio posteri ar gyfer Peidio Taflu 'Sbwriel. Daeth Uwch Sieriff Clwyd sef Lady Hanmer, i gynnal gwasanaeth byr a chyflwyno tystysgrif i'r ysgol am gymryd rhan yn yr ymgyrch.



Pawen Lawen yn cael ei phasio i bob un disgybl.



Ar bnawn Iau, Tachwedd 15fed, cyrhaeddodd 'Pawen Lawen' yr ysgol. Aeth pob plentyn allan ar fuarth yr ysgol i greu pawen a phasio y bawen lawen o un i'r llall. Mae'r bawen lawen wedi teithio o gwmpas Cymru gyfan ac roeddem yn falch iawn yn Ysgol Twm o'r Nant o gael bod yn rhan o'r ymgyrch.



Ar Fore Sul, Tachwedd 11eg mynychodd Aled a Magi, sef aelodau hynaf cyngor yr ysgol, seremoni Sul y Cofio yn nhref Dinbych. Gosodwyd rîth ganddynt ar y gofeb. Buom yn brysur yn yr ysgol hefyd yn gwneud gweithgareddau i gofio am yr rhai a fu yn y rhyfel



Daeth y genod yma o flwyddyn 5 a 6 yn 2il yn nhwrnament pêl-droed Yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt.





Mae'r uned dan 9 wedi cael rhodd arbennig gan gwmni Co-op yn Rhuthun, sef set o deganau meddal siâp ffrwythau
Hoffai plant Ysgol Twm o'r Nant ddiolch yn fawr i Chris, rheolwr siop co-op Rhuthun am y 'Goodness gang' fydd yn lawer o help at ei gwaith ysgol ar fwyd iach .

Nid y genod yn unig sydd wedi bod yn cystadlu yn nhwrnament pêl-dreod yr Urdd yn ddiweddar mae hogie blwyddyn 5 a 6 yr un mor dalentog. Aeth 2 dîm o hogie i Rhuthun i gynrychioli Ysgol Twm o'r Nant a chawsant lawer iawn o hwyl, er eu bod braidd yn fwdlyd ar ôl chwarae'r holl gemau!





Mae plant yr Uned dan 5 wedi bod yn casglu arian ar gyfer CLiC Sargent yn ystod y tymor yma gan fod bachgen bach o'r Dosbarth Meithrin yn dioddef o liwcemia. Cafwyd bore coffi hynod o lwyddiannus pan fu plant yr Uned yn canu a'u teuluoedd yn mwynhau paned. Diolch i Anti Mair, Heulwen Jones a Catrin Jones am helpu efo'r baned ac i bawb am gefnogi. Rhwng y diolchgarwch a'r bore coffi casglwyd £727





Ein thema am yr hanner tymor yma yw'r stori draddodiadol Y 3 Mochyn Bach. Mae'r plant wrth eu boddau yn gwisgo i fyny i actio'r stori ac yn arbrofi efo pob math o ddeunyddiau.

Fel rhan o'n thema 'Goleuni' cafodd y plant gyfle i adeiladu goleudai gan greu cylched trydan i oleuo'r bwlb



siop siocled
01745 814864 dinbych
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864
neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN

# SUL Y COFIO 11:11:18

Fe gynhaliwyd Oedfa'r Cymun go arbennig ar fore Sul y Cofio yng nghapel Lôn Swan, dan ofal y Parchedig Graham Floyd. Ar yr unfed dydd ar ddeg, yn yr unfed mis ar ddeg, neilltuwyd amser i gofio am y rhai a gollodd eu bywydau ar faes y frwydr, y rheini a gollodd eu bywydau yn y gwrthdaro milwrol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf â'r Ail Ryfel Byd. Dwy ryfel a gwmpasodd bron y byd cyfan.

Cofiwyd hefyd am y rheini a gollodd eu bywydau mewn rhyfeloedd lleol yn ystod canrif o ryfeloedd di-dor. Canrif a ddominyddiwyd gan ryfel a gwrthdaro, gyda dim ond cyfnodau byr yn hanes y byd, heb frwydr arfog wedi'i drefnu rywle.

Bu Prydain â rhan mewn ugain o ryfeloedd yn y ganrif ddiwethaf, gan adael y flwyddyn 1968, yr unig flwyddyn, lle na fu aelod o'r lluoedd arfog Prydeinig farw.

Mae un peth yn gyffredin ym mhob rhyfel, sef y nifer anhygoel o farwolaethau o blith y rhai a wasanaethodd y gwasanaethau arfog ac o blith y sifiliaid.

Ymhlith y miliynau a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd tri-ar-ddeg o'r milwyr o blith aelodau Eglwys Lôn Swan, Tower Hill a Brookhouse. Milwyr a enwir yn y Rôl Anrhydedd yn y cyntedd, y rhai a'u henwau wedi eu tanlinellu, a'u nodi yn rhai a gwympodd.

Ni anghofiwyd chwaith, fel y bu i un o Lôn Swan golli ei fywyd yn yr Ail Ryfel Byd, sef Aled Davies.

Derbyniodd dwy o'n haelodau flwch yn llawn cardiau ar y bore Gwener blaenorol, yn cynnwys cerdyn printiedig ar gyfer bob un o'r milwyr a fagwyd o fewn talgylch Cyngor y Dref, na ddychwelodd o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Paratowyd y cardiau gan y Faeres, y Cynghorydd Catherine Jones, ac eraill.

Ar Sul y Cofio, arddangoswyd y tri-ar-ddeg o'r cardiau hyn yng nghyntedd Lôn Swan, cardiau a oedd yn berthnasol i'r rhai a enwir yn y Rôl Anrhydedd yn y cyntedd, ac ar y Garreg Goffa o fewn i'r capel. Gwnaed yn sicr fod yna gerdyn ar gyfer pob un ohonynt.

Arddangoswyd gweddill y cardiau yn nhrefn yr wyddor, ar y byrddau yn y festri fawr. Gwnaed hyn er mwyn i'r aelodau ac ymwelwyr fanteisio ar y cyfle yn ystod y Suliau nesaf i ddarllen enwau a chofio y milwyr o fewn talgylch Cyngor y Dref a gollodd eu bywydau. Mae yna rai eraill na chawn eu henwau byth.

Cofiwyd gyda diolchgarwch a thristwch am y rhai a gollodd eu bywydau. Pob un ohonynt yn cael eu cofio gan Dduw ac yn hysbys iddo.









Y Maer y Cyng. Catherine Jones yn gosod torch



## NOSON TAN GWYLLT YN Y CASTELL

Chwith - y cwmni oedd yn gyfrifol am ollwng yr holl Dân Gwyllt heb hoe am hanner awr.



Ifor John, Dewi Roberts a Bryn Evans o Glwb Rotari Dinbych

# Sul y Cofio,Dinbych



Arwyn ar ran Côr Meibion Dinbych



Sion ar ran Plaid Cymru




Rhys ar ran Cyngor Sir ddinbych





Tegid ar ran Clwb
Rygbi Dinbych



Bob ar ran
Clwb yr henoed



Yr Eglwysi yn rhoi Torch



Un o ffenestri y dref yn arddangos cofio



Y fainc newydd i gofio y rhai a gollwyd

# HYPOTHERMIA

Cyflwr yw hwn lle mae tymheredd rhywun yn gostwng wrth i'r corff golli mwy o wres nag y mae'n ei amsugno, a gall yr unigolyn hwnnw farw os na fydd yn cael triniaeth briodol yn brydlon. Roedd y rhan fwyaf o'r teithwyr druan oedd wedi neidio i'r môr oddi ar y Titanic wedi marw o fewn llai na hanner awr (mae bod mewn dŵr oer yn cyflymu'r broses yn arw). Roedd milwyr y rhyfeloedd mawr mewn gwledydd fel Rwsia hefyd yn colli eu bywydau yn eu cannoedd i Hypothermia.

Cael eich amlygu i oerfel eithafol yw'r achos arferol, er bod unrhyw beth sy'n gwneud i'r corff gynhyrchu llai o wres yn gallu arwain at Hypothermia. Enghreifftiau o bethau fyddai'n achosi hyn yw bod wedi meddwi; bod â lefel isel o siwgr yn y gwaed; anorecsia neu henaint. Mae'r corff yn rheoleiddio ei dymheredd i hun ar rhwng 36.5 a 37.5 C (97.7 a 99.5 F mewn hen bres!). Diffiniad o Hypothermia yw pan fydd tymheredd y corff yn disgyn yn is na 35C. Mae'r cyflwr yn tueddu i ddatblygu mewn tri cham:

**Hypothermia ysgafn**

Mae'r unigolyn yn crynu, mae ei bwysedd gwaed a chyflymder curiad ei galon yn codi, mae'n anadlu yn llawer cyflymach ac mae ei wythiennau'n culhau. Dyma sut y mae'r corff yn ymateb i'r bygythiad ac yn ceisio cadw ei wres. Mae dryswch meddyliol yn cychwyn hefyd, a'r claf yn dechrau ffwndro.

**Hypothermia cymedrol**

Wrth i'r tymheredd ostwng ymhellach mae'r crynu'n gwaethygu, mae rheolaeth yr unigolyn ar ei gyhyrau'n dirywio, sy'n gwneud ei symudiadau'r araf deg ac yn llafurus, ac mae'n baglu yn aml, tra bo'r dryswch meddyliol yn gwaethygu. Mae'r gwytheinnau gwaed arwynebol yn culhau ymhellach wrth i'r corff geisio cyfeirio'r gwres i'r organau pwysig. Gall hyn adael yn unigolyn yn welw gyda'i wefusau, ei glustiau, ei fysedd a bysedd ei draed yn dechrau troi'n las yn aml.

**Hypothermia difrifol**

Wrth i dymheredd y corff ddisgyn yn is fyth, mae curiad y galon, cyflymder yr anadlu, a'r pwysedd gwaed i gyd yn plymio. Mae'r claf bellach mewn man tywyll iawn, yn aml yn cael trafferth siarad, yn mynd yn fwyfwy anghofus a dryslyd – a does ganddo ddim rheolaeth o fath yn y byd ar ei gyhyrau erbyn hyn ac felly mae cerdded yn amhosib. Mae'r cyflwr meddyliol wedi dirywio hefyd ac fe all y dioddefwr fod yn ymosodol tuag at y bobl sy'n ceisio ei achub. Y cam nesaf yw bod yr organau'n methu, sy'n arwain ar farwolaeth.

Yng nghamau terfynol y salwch hwn mae dau beth anarferol ac arswydus yn digwydd nad oeddwn i erioed wedi clywed amdanyn nhw cyn ymchwilio i'r pwnc:

Wrth iddyn fynd yn fwyfwy dryslyd, mae rhwng 20 a 50 y cant o'r dioddefwyr yn dechrau tynnu eu dillad yn ystod camau olaf y cyflwr, sydd ynddo'i hun yn arwain at golli mwy o wres o graidd y corff. Un esboniad am hyn yw bod y rhan o'r ymennydd sy'n rheoli tymheredd y corff yn stopio gweithio oherwydd yr oerfel. Eglurhad arall yw bod y gwythiennau oedd wrthi'n culhau yn gorflino ac yn ymlacio gan arwain at ryddhau gwaed a gwres yn sydyn i'r traed a'r dwylo, gan wneud i'r unigolyn deimlo'n rhy boeth. Fe wastraffwyd oriau o amser yr heddlu'n ymchwilio i farwloaethau o Hypothermia gan eu bod yn amau bod ymosodiad rhywiol wedi digwydd am fod y cyrff yn noeth.

Mae'r peth nesaf sy'n digwydd yn drist ofnadwy – a dw i'n reit ofidus yn ysgrifennu amdano ac yn cael trafferth derbyn fod y fath beth yn bodoli. 'Tyrchu terfynol' ydi'r enw arno, ac fe'i disgrifir fel 'cuddio i farw'. Mae'n debyg mai ymddygiad hunanamddiffynnol ydi o lle mae'r unigolyn yn chwilio am rywle cyfyng i guddio ynddo ym munudau olaf ei fywyd, er bod ei feddwl wedi'i chwalu gan effaith yr oerfel. Mae'n anodd iawn dychmygu bod hyn yn digwydd, ac mae'n dangos mai anifieliaid ydyn ni i gyd yn y pen draw a bod greddf naturiol yn cymryd drosodd pan na allwn ni feddwl drosom ein hunain.

Diolch unwaith eto i Emyr Wynne Evans am ei ganiatad i gynnwys yr erthygl hon yn y Bigwn.

# ATWRNEIAETH ARHOSOL

Nid oes neb yn hoff iawn o feddwl am gyfnod yn y dyfodol lle y bydd posibilrwydd na fyddent yn medru gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd yma'n bodoli a beth sydd yn ddiarwybod i lawer yw'r ffaith nad oes hawl awtomatig i'w perthynas agosaf i awdurdod dros eu materion yn y fath sefyllfa.

Petai unigolyn yn methu gwneud penderfyniadau ynghlyn â'u materion eu hunain o ganlyniad i salwch, henaint, ddamwain neu analluedd meddyliol fe fydd angen iddynt gael rhywun i ymdrin gyda'r materion hyn ar eu rhan.

Bydd methiant i baratoi ar gyfer y posibilrwydd hwn yn medru arwain at nifer o gymhlethdodau pan ddaw'r angen i ddelio gyda materion syml megis tynnu arian o gyfrif banc neu dalu biliau.

Fe fyddai sefydlu Atwrneiaeth Arhosol yn golygu, pe byddai'r angen yn codi, bod trefniadau clir yn eu lle i unigolyn neu unigolion wneud penderfyniadau allweddol ynghlyn ag arian, eiddo a'u hiechyd.

Pwrpas trefnu Atwrneiaeth Arhosol yw er mwyn galluogi rhywun i reoli eich materion personol pan nad ydych chi bellach yn gallu neu'n barod i wneud hynny.

Drwy sefydlu Atwrneiaeth Arhosol, fe gewch benodi unigolyn neu unigolion dibynadwy i ofalu am eich materion. Fe fyddai gan yr atwrneiod yr hawl a'r ddyletswydd i weithredu er eich budd.

Mae'n hanfodol nad ydych chi'n ei adael yn rhy hwyr. Dim ond pan fyddwch chi'n meddu ar yr alluedd meddyliol y mae'n bosib i chi sefydlu Atwrneiaeth Arhosol.

Heb Atwrneiaeth Arhosol, fe fydd rhaid i berthynas wneud cais i'r llysoedd cyn y byddai'n bosib iddynt ddelio â materion unigolyn sydd wedi colli eu galluedd meddwl, fe all hyn fod yn broses anodd a drud.

Mae dau fath o Atwrneiaeth Arhosol:

- Atwrneiaeth ar gyfer penderfyniadau ariannol ac eiddo, mae hwn yn cwmpasu materion megis rheoli cyllid dyddiol, dyledion, budd-daliadau a phrynu a gwerthu eiddo.
- Iechyd a lles, mae hwn yn cwmpasu materion megis triniaeth feddygol, ble mae'r unigolyn dan sylw yn byw â gofal dydd i ddydd. Fe fydd gan yr unigolyn yr opsiwn i gydsynio neu wrthod triniaeth cynnal bywyd.

Lois Griffiths
Cyfreithwraig dan Hyfforddiant
Guthrie Jones & Jones

# CLWB RYGBI DINBYCH

Mewn gêm hynod gyffrous ar Gaeau Les Phillips, roedd y Tîm Cyntaf ar y blaen o 21-18 yn erbyn Caernarfon, cyn ildio cais hwyr i golli o 23-21. Croesodd Aidyn Jones y llinell ddwywaith, gydag Owain Davies yn cyfrannu 11 pwynt gyda'i gicio. Er y siom o golli gêm mor agos, llwyddodd Dinbych i ennill pwynt bonws haeddianol. Daeth taith hir i Gaerdydd i chwarae yn Ail Rownd Plât Undeb Rygbi Cymru yn erbyn Crwydriaid Morgannwg, tîm hanesyddol sydd ar hyn o bryd yn yr ail safle yn Adran 1 Dwyrain Canolog. Nid yn annisgwyl, colli fu'r hanes, o 54-7, gyda Gruff Roberts yn sgorio'u hunig gais. Yn ôl yn y Gynghrair, Bethesda gariodd y dydd o 34-17 yn Nyffryn Ogwen, gyda'r bytholwyrdd Gavin Rizzi'n croesi am gais, gyda chais, dau drosiad ac un cig gosb i Owain Davies.

Llwyddodd yr Ail Dîm i ad-ennill eu safle ar frig Adran 3 trwy guro'r ymwelwyr o Rhosllannerchrugog o 26-10. Sgoriodd Iwan Johnson ddau gais, gyda chais yr un i Eliott Davies a chwaraewr "profiadol" arall, Roger Clayton.

Cafwyd munud o dawelwch cyn y gêm rhwng Ieuenctid Dinbych a Rhuthun er cof am y rhai a gollodd eu bywydau mewn damwain ffordd yn ddiweddar. Roedd un ohonynt, John Michael Jones, yn chwarae i dîm Ieuenctid Rhuthun. Roedd gan yr ymwelwyr garfan llawer cryfach na Dinbych, a gwnaethpwyd defnydd da o'u heilyddion i ennill o 17-7, gyda Jac Jones yn sgorio'r unig gais i'r tîm cartref. Yn dilyn y gêm, cyflwynwyd £100 ar ran y Clwb fel cyfraniad tuag at elusen er cof am John Michael Jones.

Oddi ar y cae, mae'r Clwb yn hynod falch i gyhoeddi eu bod wedi cyfrannu £325 (arian giât gêm Llandudno ar ddechrau mis Hydref) i Mathew Parry, maswr Clwb Rygbi Pwllheli, sydd wedi dioddef anaf difrifol i'w wddw a'i gefn yn y gêm rhwng Pwllheli a Bethesda yng nghanol mis Medi.

Hefyd cyflwynodd Tegid Phillips, Llywydd y Clwb a Cynrychiolydd Gogledd Cymru gydag Ymddiriedolaeth Elusennol Undeb Rygbi Cymru, rodd o £735 yn ddiweddar i'r elusen honno. Prif nôd yr Ymddiriedolaeth yw cefnogi chwaraewyr sydd wedi eu hanafu'n ddifrifol tra'n chwarae rygbi yng Nghymru, yn ogystal â'u teuluoedd. Fe godwyd yr arian yn ystod y cinio arbennig a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf i ddathlu 40fed penblwydd y Clwb.

Yn dilyn casgladiau yn y Clwb rydym yn falch o gyhoeddi fod cyfraniad o £235 wedi ei wneud i gronfa "Just Giving" Ben Rawson o Lanelwy. Efallai i chi gofio fod Ben wedi colli ei goes o ganlyniad i gancr, a'r gobaith ydy casglu £50,000 i dalu am y goes brosthetig orau posibl er mwyn ei alluogi i chwarae hoci unwaith eto a pharhau gyda'i astudiaethau ym Mhrifysgol Manceinion.

Hoffai'r Clwb fynegi eu diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y rhoddion hyn.

*John Davies*

## Cwis Stan ac Erfyl

Ydach chi'n gallu adnabod ugain o gestyll Cymru, fel Castell Dolbadarn a Chastell Caerffili? Ym mha wlad mae timau pêl-droed fel Santos a Berwick Rangers yn chwarae? A ble cafodd Aneurin Bevan ei eni?

Yr her i'r saith tîm dewr yn y cwis yn y Clwb Rygbi oedd adnabod cyfres o luniau cestyll a chyfres o luniau o arwyddion ffordd ac ateb cwestiynau ar Gymru. Hefyd lleoli timau clybiau pêl-droed yn y gwledydd cywir, adnabod geiriau mewn caneuon ac fe gafwyd digon o gwestiynau i brofi gwybodaeth gyffredinol y timau.

Bu cystadlu brwd, awyrgylch braf a thipyn o dynnu coes! Dydw i ddim am enwi'r tîm mwyaf swnllyd na'r tîm oedd yn cwyno gymaint yn ystod y noson ond rhaid llongyfarch y ddau dîm a ddaeth i'r brig a rhaid canmol tîm Gwelin am sgôr perffaith yn y rownd "Adnabod wynebau enwogion."

Diolch i Stan ac i Erfyl am baratoi'r cwestiynau ac am arwain noson hwyliog. Codwyd dros ganpunt at Apêl Dinbych Urdd 2020. Diolch i bawb am eu cefnogaeth gan gynnwys Pwyllgor Apêl Dinbych, y gefnogaeth a ddaeth o Ruthun a diolch i bwyllgor a staff y Clwb Rygbi am eu cydweithrediad.

O.N. Atebion i'r cwestiynau uchod:- Mae Santos yn chwarae ym Mrasil a Berwick Rangers yn Lloegr. Ganwyd Aneurin Bevan yn Nhredegar.

(Lluniau tud 27)

## RHEDEG YN ÔL I BARIS

"Mi fyddaf i'n cofio'r dyddiau yma am byth..." – Chris Coleman

Mae nostalgia yn braf dydi? Cofio am ddyddiau da o'r gorffennol gyda gwên. Wel, nos Sadwrn, Tachwedd 10ed yn Neuadd y Dref, Dinbych roedd cyfle i hel atgofion am lwyddiant tîm pêl-droed Cymru ym mhencampwriaeth Ewro 2016 yn Ffrainc. Daeth llond neuadd i noson "Rhedeg yn ôl i Baris' yng nghwmni cyflwynydd rhaglen Ar y Marc Radio Cymru, Dylan Jones, oedd yn holi'r darlledwr a'r cyn-chwaraewr rhyngwladol, Owain Tudur Jones, ac Is-hyfforddwr tîm Cymru, Osian Roberts.

Roedd cyfle i'r gynulleidfa glywed am straeon tu ôl i'r lleni, gyda sesiwn holi ac ateb hefyd. Ac i goroni'r cyfan, mi gafwyd perfformiad egniol ac arbennig gan y grŵp roc poblogaidd, Candelas, a'r gynulleidfa yn morio canu i'r gân enwog Rhedeg i Baris cyn diwedd y nos.

Roedd yna raffl go arbennig hefyd, gyda gwobrau nad oedd posib rhoi pris arnyn nhw - crys hyfforddi pêl-droed Cymru wedi ei arwyddo gan y tîm presennol, crys newydd sbon wedi ei lofnodi gan chwaraewr canol cae Arsenal - Aaron Ramsey - a 2 raglen o gemau Cymru (un gyda llofnod Harry Wilson a'r llall - Capten Cymru, Ashley Williams). Enillodd un gŵr o Gorwen grys Rygbi'r Llewod wedi ei fframio a'i arwyddo gan y chwedlonol Gareth Edwards.

Roedd yn noson i'w chofio, yn gyfle i ddathlu Cymru a'i phobol ymysg ffrindiau. Noson hydrefol braf, ac wrth i'r dail droi eu lliw, mi ddaeth wal goch Dinbych yn fyw eto.

Elw yn mynd at gronfa Pwyllgor Apêl Tref Dinbych/ Eisteddfod Yr Urdd Sir Ddinbych 2020.

(Lluniau tudalen gefn)

# CLWB PÊL-DROED DINBYCH

Mis eithaf cymysglyd mae Tîm Cyntaf CPD Dinbych wedi ei gael gyda buddugoliaethau a cholledion. Enillon nhw ddwy gêm gwpan sy'n mynd â nhw ymlaen i drydedd rownd Cwpan JD Cymru. Er hynny, colli oedd eu hanes yn eu hunig gêm gynghrair a honno yn erbyn yr arweinwyr presennol, Airbus Broughton o 2-0, sy'n golygu bod Dinbych bellach wedi disgyn i dri o safleoedd isaf y gynghrair.

Buddugoliaeth enfawr oedd i rownd gyntaf Cwpan JD gyda sgôr o 9-3 gartref yn erbyn Caergybi, sydd yn Ail Adran Cynghrair Cymru. Roedd Dinbych ar y blaen o 3-1, cyn i Gaergybi daro'n ôl a'i gwneud hi'n 3-3 erbyn yr egwyl. Gwelwyd newid yn strwythur Dinbych erbyn yr ail hanner a ddilynwyd gyda 6 gôl ychwanegol yn y pen draw. Daeth y goliau'r prynhawn hwnnw gan Mark Roberts (3), Jordan Barrow(2), Sam Jones, Jake Walker ac un gôl gan Gaergybi i'w gôl eu hunain.

I Fwcle deithiodd y tîm ar gyfer yr Ail Rownd, yn erbyn y tîm oedd yn 6ed yn yr un gynghrair â nhw ac oedd yn ffefrynnau ar gyfer ennill y gêm. Er hynny, cafwyd perfformiad arbennig gan Ddinbych wrth iddynt guro o 3-1 gyda goliau gan Jordan Barrow, Mark Roberts a Lewis Sirrell.

Eu gwobr felly yw gêm gartref yn y drydedd rownd yn erbyn Cambria a Chlydach o Gwm Rhondda. Mae nhw ar hyn o bryd yn chwarae yn Adran Un yng Nghynghrair De Cymru a'u cadeirydd yw Terry Venables, sef cyn-reolwr Lloegr. Bydd y gêm hon yn bendant yn brawf anodd i Ddinbych gan fod Cambria a Chlydach eisoes wedi curo Aberystwyth a'r Drenewydd y tymor hwn yng Nghwpan NG Nathaniel. Mae'r gêm i'w chwarae ar yr 8fed o Ragfyr am 2:30pm.


Mae'r Ail Dîm dan reolaeth Kevin Roberts yn parhau gyda'u perfformiadau arbennig wrth iddynt aros yn yr ail safle yng Nghynghrair Ail Dîm Lockstock Cymru. Yn eu pedair gem ddiwethaf, mae nhw wedi sgorio 25 o goliau, gan guro Penmaenmawr Phoenix 9-2 oddi cartref, Prestatyn 6-0, Penmaenmawr Phoenix 4-0 (cartref) a Bae Cinmel 6-0. Mae Andy Thomas yn dal i sgorio llwythi wrth iddo sgorio 5 o'r 25, Paul Williams yn sgorio 4, Tom Jones yn sgorio 3, a Stuart Vernon, Gruff Jones, Billy Holmes, Sean James a Lewis Jenner yn cael un yr un hefyd.

Y mis hwn, mae tîm Denbigh Development wedi dyblu eu pwyntiau wrth iddynt ddiogelu gêm gyfartal o 2-2 yn erbyn Betws y Coed. Er eu bod nhw'n dal i sefyll yng ngwaelod y gynghrair, maent yn sicr wedi gwella yn ystod y mis diwethaf ac mae'r hyfforddwr Dan Whitfield yn ffyddiog y bydd yna fuddugoliaeth yn fuan.

Oddi ar y cae, roedd y Clwb yn hynod falch o gael galwad gan FA Cymru yn gofyn iddynt helpu i ddarparu cyfleusterau hyfforddi ar gyfer carfan dan 19 Yr Alban a fydd yn cystadlu yn Rowndiau Rhagbrofol Pencampwriaeth UEFA gyda gemau lleol yn erbyn Cymru, Sweden a San Marino. Mae'r garfan wedi cyfarfod sawl gwaith yn Central Park gyda gwylwyr lleol yn mwynhau cael gweld rhai o chwaraewyr ifanc Yr Alban.

Mae Tŷ'r Clwb a'r Bar bron â bod wedi'u cwblhau a'r bwriad yw eu hagor yn swyddogol nos Wener, Rhagfyr 14eg pan fydd y tîm cyntaf yn chwarae yn erbyn eu gelynion, Y Rhyl. Bydd y gic gyntaf am 7:30pm a disgwylir torf enfawr yn dilyn ymadawiad sawl chwaraewr o Ddinbych i'r Rhyl ddiwedd y tymor diwethaf.

Yn y llun isod mae Llysgennad CPD Dinbych, Cliff Kearns yn croesawu Billy Stark, rheolwr Yr Alban Dan 19.




# BOWLIO CLWB Y PARC

Mae tîm bowlio Clwb y Parc yn cyfarfod am 7yh bob nos Iau yng Nghapel y Fron. Yn ddiweddar, cynhaliwyd cystadleuaeth yn erbyn tîm Rhewl a chafwyd noson hwyliog o fowlio a chymdeithasu. Ffurfiwyd pum pâr gan y ddau dîm gyda phob pâr yn chwarae ddwywaith, hynny yw deg gêm i gyd.

Ar ddiwedd y noson, Clwb y Parc oedd yn fuddugol gan ennill 7 gêm, colli un a dwy yn gyfartal. Roedd Rhewl un chwaraewr yn brin ac felly bu rhaid i Emyr, capten Clwb y Parc, chwarae bedair gwaith, dwywaith dros y tîm cartre a dwywaith dros yr ymwelwyr. I fod yn deg, bu Emyr yn aelod o dîm Rhewl cyn i Glwb y Parc gael ei sefydlu a bydd yn dal i chwarae dros Rhewl yn achlysurol. Ar y noson, collodd Emyr ei ddwy gêm pan yn chwarae dros Rhewl ac ennill y ddwy fel capten Clwb y Parc! Roedd hyfforddwr Clwb y Parc, Berwyn Roberts, yn falch iawn gyda perfformiad y tîm ond mae'r aelodau yn dal i ddisgwyl cael gwybod beth fydd ei wobr i ni.

Y parau yn erbyn Rhewl oedd John a Clwyd Howatson, Gareth Jones a Gwyrfai Jones, Geraint Lloyd a Gareth Morgan, Richard Snelson ac Emyr Roberts a June Howatson a Tegwen Williams.

Llawer o ddiolch i John Howatson am drefnu'r noson gyda'i gefnder, Gwyn Howatson (Rhewl) ac am ei holl waith gyda June yn paratoi'r llain fowlio a'r paned bob wythnos. Mae croeso i bobl ymuno yn y bowlio trwy ddod i'r Fron erbyn 7 yh unrhyw nos Iau a mwynhau gwrando ar Gôr Cytgan Clwyd yn ymarfer yn y Festri yr un pryd!

## Atebion:

1. Anrhegion; 2. Carw/Ceirw;
3. Gwyn; 4. Goleuadau;
5. Cysgu; 6. Llythyr;
7. Coblynod;
8. Coeden;
9. Trimins; 10. Simdde

**Guthrie Jones a Jones** Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref




Gareth M. a John gyda rhai o dîm Rhewl



Emyr, Gwyrfai, June, Tegwen a Gareth J. (Tud 26)

## Cwis Stan ac Erfyl (hanes tudalen 25)



Y tîm buddugol



Bodlon gyda'r ail safle

## Pwdin a Phaned – Cymorth Cristnogol




Mary,Jois, Richard a Medwyn - pawb yn cael 2 bwdin



Eiri a Cheryl yn gweini

**Hysbyseb Gwasg Helygain**

# Noson Rhedeg yn ôl i Baris(hanes tudalen 25)



Tom,Ifan,
Gruff Lewis ac Osian
-
Band CANDELAS



Elen Jones



Mair Edwards



Erfyl Williams



Nia a Gwennan



Geraint Williams



Alwyn Jones





Huw yn gofyn cwestiwn



Ruth a Sylwen



Sion, Osian Roberts ac Owain



Brynle, enillyd crys ar y raffl




Iorwerth Roberts yn ennill crys Gareth Edwards

***GOLYGYDD Ionawr: Catrin Warren***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain